Bwletin y Cyflogwr

Cyllid & Tollau EM

Eich llwybr i'r wybodaeth ddiweddaraf ynghylch y gyflogres Chwefror 2011 Rhifyn 37

Offer TWE Sylfaenol ar gael i'w lawrlwytho nawr

Croeso

Helo a chroeso i rifyn arall o Fwletin y Cyflogwr sy'n cynnwys llawer o wybodaeth ddefnyddiol, nodiadau atgoffa a manylion ynghylch ychydig o'r cymorth sydd ar gael ar eich cyfer i'ch cynorthwyo i gyflawni eich ymrwymiadau cyflogres i CThEM.

Fel rhan o'n hymgyrch i symud mwy o'n busnes a rhyngweithiadau ar-lein, rydym wedi disodli CD-ROM y Cyflogwr â'n *Offer TWE Sylfaenol* newydd, y gellir eu lawrlwytho. Mae'r erthygl ar dudalen 10 yn sôn wrthych ynglŷn â hyn ac o ble y gallwch eu lawrlwytho. Byddwn hefyd yn awgrymu'n gryf eich bod yn ymrestru ar gyfer ein gwasanaeth rhybuddion e-bost (gwasanaeth Saesneg yn unig) i'n galluogi i'ch hysbysu pan fod unrhyw newidiadau wedi eu gwneud i'r Offer hyn, gallwch ganfod sut i ymrestru ar dudalen 14.

Mae'n bosib hefyd y teimlwch fod yr erthygl ar dudalen 13 yn werth ei darllen am ei bod yn dweud wrthych am rai newidiadau rydym wedi eu gwneud i godau treth TWE ar gyfer 2011-12 a gallwch ganfod manylion ynglŷn â'r cyfraddau a'r lwfansau newydd ar gyfer 2011-12 ar dudalennau 5 a 6.

Yn dilyn y penderfyniad i ddiddymu copïau papur o'r Bwletin ar gyfer y mwyafrif helaeth o gyflogwyr, mae nifer ohonoch wedi cysylltu â mi gan fynegi pryderon ynglŷn â'r amser a chostau sy'n gysylltiedig ag argraffu copïau caled ac hefyd yr amser y mae'n ei gymryd i lawrlwytho'r fersiwn ar-lein mewn gwirionedd. Rydym wedi gwrando ar eich pryderon ac o ganlyniad, gwnaed nifer o newidiadau i'r rhifyn hwn o'r Bwletin. Er mwyn ceisio lleihau'r amser y mae'n ei gymryd i'w lawrlwytho a'r costau â aed iddynt os fyddwch am argraffu copi caled, ni ddefnyddiwyd delweddau yn y rhifyn hwn (ar wahân i'r clawr) a chafodd defnydd o liw ei leihau'n sylweddol.

Er mwyn helpu ymhellach i leihau'r gost o argraffu copi o'r Bwletin mae'n bosib yr hoffech ystyried y canlynol:

- Gosod eich argraffydd i argraffu mewn du a gwyn yn unig
- Os yw'r nodwedd gan eich argraffydd, sicrhewch ei fod wedi ei osod i argraffu ar ddwy ochr o'r papur
- Argraffu'r tudalennau sydd o ddiddordeb arbennig i chi yn unig

Gobeithiaf fod y newidiadau rydym wedi eu gwneud hyd yn hyn yn mynd beth ffordd i helpu i leihau'r gost o argraffu copi caled, os fyddwch eisiau. Gadewch i mi wybod beth rydych yn ei feddwl o'r fformat newydd neu os oes gennych unrhyw syniadau eraill yr hoffech i ni eu hystyried. Fy nghyfeiriad e-bost yw Alison.bainbridge@hmrc.gsi.gov.uk



Alison Bainbridge
Golygydd

Cynnwys

4 Gair i Gyflogwyr Fesul Tamaid 2011

5 Cyllideb – 22 Mehefin 2010 – Gwybodaeth wedi'i diweddaru a gyhoeddwyd ar 2 Rhagfyr 2010 Gwybodaeth o bwys

7 Cyflwyno ar-lein – Datganiadau Blynyddol y Cyflogwr

8 Yswiriant Atebolrwydd Cyflogwyr: Newidiadau pwysig

9 Ffurflen P60

10 Offer TWE Sylfaenol (CD-ROM y Cyflogwr yn flaenorol)

11 Rhif ffôn newydd ar gyfer ymholiadau treth cyflogeion Saesneg eu hiaith Gwybodaeth o bwys

12 A fyddai arbed hyd at £50,000 yn hwb i ddechrau eich busnes newydd?

13 Newidiadau codio newydd ar gyfer 2011-12

14 Pecynnau'r Cyflogwr a gwybodaeth TWE nawr ar-lein Gwybodaeth o bwys

15 A ydych chi'n dal i ddefnyddio Tablau Dull Hir?

16 Pecyn Cymorth newydd ar gael i'ch cynorthwyo â ffurflenni diwedd blwyddyn cyflogwyr

17 Angen help gyda'ch Datganiad Blynyddol y Cyflogwr?

18 Symud tuag at Wybodaeth Amser Real

19 Cosbau yn ymwneud â thaliadau TWE hwyr

20 Cosbau yn ymwneud â ffurflenni TWE ar gyfer cyflogeion sy'n cychwyn a gadael

Arweiniad diwygiedig Cydymffurfiad Cyflogwyr

21 Sicrhewch eich bod yn defnyddio manylion banc cywir CThEM

22 A allech chi wneud heb eich llyfryn taliad?

23 Tâl Tadolaeth Statudol Ychwanegol (ASPP)

24 Isafswm Cyflog Cenedlaethol

25 Cynorthwywch i atal gweithio anghyfreithlon

Aberth Cyflog

26 Mae'n rhaid i holl fusnesau TAW gyflwyno ar-lein yn 2012

27 Rhyddhad treth ar bensiynau

28 Mae oed Pensiwn y Wladwriaeth (SPa) i ferched yn newid

29 Cynlluniau Pensiwn Wedi Contractio Allan a Chyfraniad Diffiniedig

30 Rhifau Yswiriant Gwladol - Diddymu cerdyn plastig Rhif Yswiriant Gwladol

31 Dyddiadur y cyflogwr

33 Rhifau ffôn a allai fod o gymorth

Gwybodaeth o bwys Gwybodaeth ac erthyglau y mae'n hanfodol eu darllen

Gair i Gyflogwyr Fesul Tamaid 2011

Cyngor ar y gyflogres yn rhad ac am ddim yn Gair i Gyflogwyr Fesul Tamaid 2011

Mae digwyddiadau Gair i Gyflogwyr Fesul Tamaid yn rhad ac am ddim ac wedi eu llunio'n arbennig gan ystyried y cyflogwr newydd a bach.

Rydym yn gwybod y gall rhedeg cyflogres ymddangos fel petai'n dasg anodd ac mae'n bosib y bydd angen cymorth a chefnogaeth arnoch. Ymunwch â ni yn un o'r digwyddiadau hyn lle byddwch yn clywed yr holl newyddion diweddaraf ynglŷn â materion y gyflogres a chael atebion di-*jargon* i'ch cwestiynau.

Mae hefyd yn gyfle i siarad â chyflogwyr lleol eraill a thrafod 'arfer gorau'.

Bydd ardal arddangos eang ar agor yn barhaol o 10:00 i 13:00 ac fe'i hategir gan ddau gyflwyniad yn ogystal.

I gadw lle mewn digwyddiad Gair i Gyflogwyr Fesul Tamaid yn agos i chi ewch i www.hmrc.gov.uk/employers/talk.htm neu ffoniwch 08453 667 878 (llinell Saesneg yn unig).

Dyddiadau a lleoliadau 2011

16	Chwefror	Watford	Gwesty Park Inn
2	Mawrth	Doncaster	The Dome
10	Mawrth	Burnley	CPD Burnley (Turf Moor)
16	Mawrth	Caer	The Ramada Caer
22	Mawrth	Aberdeen	CPD Aberdeen (Pittodrie)

Defnyddiol iawn i allu gofyn cwestiynau uniongyrchol a thrafod gyda staff gwybodus.

Digwyddiad wedi'i gyflwyno a'i gyfleu'n dda iawn.

Mae digwyddiadau Fesul Tamaid lleol yn dda ar gyfer cyflogwyr bach/bach iawn nad oes ganddynt, o bosib, yr amser/cronfeydd i deithio i achlysuron mwy o faint.

Lleoliad yn agosach i'm gwaith - grŵp llai yn golygu mwy o gyfle i gael trafodaeth â staff CThEM.

Gwybodaeth o bwys

Cyllideb - 22 Mehefin 2010 - Gwybodaeth wedi'i diweddaru a gyhoeddwyd ar 2 Rhagfyr 2010

Yn dilyn datganiad gweinidogaethol ysgrifenedig a gyhoeddwyd ar 2 Rhagfyr 2010, darparodd Ysgrifennydd y Siecr i'r Trysorlys wybodaeth a fydd, o bosib, yn effeithio i raddau ar weithrediad eich ymrwymiadau cyflogres i CThEM. Gellir canfod manylion llawn y datganiad yn: www.hmrc.gov.uk/budget-updates/index.htm#1

Mae'r erthygl hon yn darparu crynodeb bras o'r datganiadau sydd fel a ganlyn;

Lwfansau Treth Incwm

Cynyddir y lwfans personol sylfaenol ar gyfer 2011-12 i £7475 a'r cod treth at ddefnydd dros dro fydd 747L.

O ganlyniad bydd ymgodiad cyffredinol o godau treth ag ôl-ddodiad 'L' a gynyddir gan 100. Bydd CThEM hefyd yn anfon codau treth 2011-12 unigol ar gyfer rhai cyflogeion. Gellir canfod cyfarwyddiadau llawn ar yr hyn sydd i'w wneud ar gyfer cyflogeion sydd gyda, neu heb, god treth ar ffurflen P9X yn www.hmrc.gov.uk/cymraeg/employers/emp-pack.htm

Byddwn yn anfon unrhyw godau treth unigol ar gyfer y flwyddyn dreth 2011-12 at gyflogwyr yn ystod misoedd Ionawr, Chwefror a Mawrth 2011.

Os ydych wedi cofrestru ar gyfer defnyddio'r gwasanaeth 'TWE Ar-lein ar gyfer Cyflogwyr,' cofiwch wirio'n rheolaidd i sicrhau eich bod yn gweithredu unrhyw hysbysiadau cod treth 2011-12 a anfonwn atoch ar-lein pan fyddwch yn sefydlu eich cyflogres ar gyfer 2011-12. Mae cymorth bellach ynglŷn â'r hyn sydd angen i chi ei wneud cyn dechrau'r flwyddyn dreth hefyd ar gael yn www.businesslink.gov.uk/taxyearstart

Bandiau a chyfraddau Treth Incwm

Dangosir cyfraddau treth incwm ac ystodau band treth incwm ar gyfer y flwyddyn dreth 2011-12 isod:

Cyfradd	%	Ystod band
Cyfradd Sylfaenol	20%	£1 i £35,000
Cyfradd Uwch	40%	£35,001 i £150,000
Cyfradd Ychwanegol	50%	£150,001 ac uwch

erthygl yn parhau >

Terfynau enillion a throthwyon Cyfraniadau Yswiriant Gwladol (CYG)

Cadarnhaodd y datganiad diweddar hefyd y newidiadau i'r terfynau a'r trothwyon Yswiriant Gwladol (YG) ar gyfer y flwyddyn dreth 2011-12.

- cynyddir prif gyfradd CYG Dosbarth 1 i 12%
- cynyddir cyfradd Dosbarth 1 y cyflogwr o CYG i 13.8%. Bydd y gyfradd gynyddol hefyd yn gymwys ar gyfer cyfraniadau Dosbarth 1A a Dosbarth 1B.
- cynyddir cyfradd ychwanegol Dosbarth 1 i 2%
- £102 yr wythnos fydd y Terfyn Enillion Is
- £136 yr wythnos fydd y Trothwy Eilradd (ar gyfer cyflogwyr)
- £139 yr wythnos fydd y Prif Drothwy (ar gyfer cyflogeion)
- £770 yr wythnos fydd y Pwynt Croniad Uchaf
- £817 yr wythnos fydd y Terfyn Enillion Uchaf.

Ni chafodd unrhyw newidiadau eu datgan i'r canrannau ad-daliad contractio allan.

Cyfrifiadau Treth ac YG

Os ydych yn cwblhau eich cyflogres yn electronig gan ddefnyddio:

- Meddalwedd y gyflogres – sicrhewch ei fod yn cynnwys y newidiadau treth a CYG Dosbarth 1 o 6 Ebrill 2011
- Cyfrifiannell P11 CThEM – mae fersiwn wedi'i ddiweddaru nawr ar gael oddi ar ein Offer TWE Sylfaenol (CD-ROM y Cyflogwr yn flaenorol) yn www.businesslink.gov.uk/basicpayetools

Os ydych yn cwblhau eich cyflogres â llaw gan ddefnyddio:

- Cyfrifianellau Rhyngrwyd TWE a CYG CThEM – bydd cyfrifianellau wedi'u diweddaru ar gael ar ein gwefan ar 6 Ebrill 2011. Ewch i www.hmrc.gov.uk/practitioners/tools-more.shtml
- Tablau dull hir – defnyddiwch y fersiynau wedi'u diweddaru i'w defnyddio o 6 Ebrill 2011 a fydd ar gael i'w gweld a'u hargraffu yn www.hmrc.gov.uk/cymraeg/employers/emp-pack.htm

Mae mwy o wybodaeth ar gael yn yr erthygl 'A ydych chi'n dal i ddefnyddio Tablau Dull Hir?' ar dudalen 15.

Gallwch ddarganfod mwy ynglŷn â threth a chyfraddau a lwfansau CYG yn llyfryn cymorth E12 *Cyfraddau a therfynau TWE a CYG* y gellir ei lawrlwytho yn www.hmrc.gov.uk/cymraeg/employers/emp-pack.htm ac y caiff ei ddiweddaru o 6 Ebrill â chyfraddau 2011-12.

Cyflwyno Cod Treth D1

Cyflwynwyd cyfradd ychwanegol o dreth 50% o 6 Ebrill 2010 sy'n gymwys ar gyfer unigolion sydd ag incwm trethadwy uwchlaw £150,000. Ar gyfer y flwyddyn dreth 2011-12 byddwn yn anfon cod treth D1 newydd o dan yr amgylchiadau hynny lle bydd holl enillion cyflogai o'r ffynhonnell honno yn drethadwy ar y gyfradd ychwanegol.

Cyflwyno ar-lein – Datganiadau Blynyddol y Cyflogwr

Anfon eich Datganiad Blynyddol y Cyflogwr [P35 a P14] ar-lein ac ar amser.

Mae'n rhaid i'ch Datganiad Blynyddol y Cyflogwr (P35 a P14) ar gyfer 2010-11 ein cyrraedd erbyn 19 Mai 2011. Bydd hyd yn oed yn bwysicach eleni i gyflwyno eich Datganiad ar-lein am y gall cosbau fod yn gymwys. Awgrymwn eich bod yn cyflwyno eich Datganiad ar-lein cyn gynted â'i fod yn barod. Peidiwch ag aros tan y funud olaf i anfon eich Datganiad a gadewch ddigon o amser rhag ofn fod angen i chi ail-gyflwyno cyn y terfyn amser statudol.

Os oes angen i chi gyflwyno Datganiad i ni (am y bu'n ofynnol arnoch i gwblhau o leiaf un daflen waith P11 neu gyfwerth yn ystod y flwyddyn dreth 2010-11) mae'n rhaid i chi ei gyflwyno i ni erbyn y terfyn amser statudol hwn, neu bydd cosb am gyflwyno'n hwyr yn ddyledus.

Unwaith bod eich Datganiad Blynyddol y Cyflogwr wedi'i gwblhau, mae'n rhaid iddo fodloni manylebion dilysu safon ansawdd CThEM i sicrhau na chaiff ei wrthod. Am wybodaeth i'r funud ar reolau dilysu busnes, bwriwch olwg ar www.hmrc.gov.uk/ebu/qual_stand.htm

Mae'n rhaid i bron a bod pob cyflogwr gyflwyno eu Datganiad Blynyddol y Cyflogwr ar-lein. Os nad ydych wedi cyflwyno eich Datganiad ar-lein yn flaenorol mae'n rhaid i chi weithredu nawr gan gofrestru ar gyfer gwasanaeth ar-lein CThEM. Gellir canfod mwy o wybodaeth am gyflwyno ar-lein a chofrestru yn www.businesslink.gov.uk/usingpayeonline

Os fyddwch yn cyflwyno eich Datganiad ar bapur mae'n bosib y cewch gosb. Am fwy o wybodaeth ynglŷn â rhain, ewch i www.hmrc.gov.uk/paye/problems-inspections/wrong-filing-method.htm

Cofiwch, er mwyn osgoi cosbau, cyflwynwch eich Datganiad Blynyddol y Cyflogwr (P35 a P14) ar-lein a chyflwynwch cyn gynted ag y gallwch cyn 19 Mai 2011.

Os nad oes angen i chi anfon Datganiad Blynyddol y Cyflogwr atom, dylech ddweud wrthym cyn gynted â phosib. Gellir canfod gwybodaeth bellach ynglŷn â sut i roi gwybod i ni ar ddiwedd yr erthygl hon.

Consesiwn Statudol Ychwanegol (ESC) B46 yn diweddu ar 31 Mawrth 2011

Yn y rhifyn diwethaf o'r Bwletin, gwnaethom roi manylion i chi am newidiadau pwysig i ESC B46 sy'n effeithio ar y gofyn i gyflwyno dogfennau eich Datganiad Blynyddol y Cyflogwr (P35 a P14) ar amser.

Mae'n rhaid cyflwyno'n agos i bob Datganiad yn electronig sy'n golygu nad oes angen yr ESC B46 hwn. Cyflwynwyd y consesiwn er mwyn sicrhau na chodwyd cosbau lle'r oedd cwsmeriaid wedi cymryd pob cam rhesymol i gyflwyno eu Datganiad ar amser ond fe'u harbedwyd rhag gwneud hynny, er enghraifft gan oedi'r post.

Daw'r cyfnod gras a ganiatawyd gan Gonsesiwn Statudol Ychwanegol B46 (ESC B46) felly i ben ar 31 Mawrth 2011. O'r dyddiad hynny ymlaen, mae'n rhaid i gwsmeriaid sy'n cyflwyno eu Datganiad ar gyfer 2010-11 a blynyddoedd dilynol sicrhau ei fod yn cael ei gyflwyno cyn gynted â bod y Datganiad yn barod cyn y terfyn amser statudol ar 19 Mai. Am wybodaeth bellach, ewch i *Revenue and Customs Brief 24/10* yn www.hmrc.gov.uk/briefs/company-tax/brief2410.htm

erthygl yn parhau >

Yswiriant Atebolrwydd Cyflogwyr: Newidiadau pwysig

Dim Datganiad Blynyddol y Cyflogwr [P35 a P14] ar gyfer 2010-11

Os nad oes yn rhaid i chi gwblhau taflen waith ddidyniadau P11 yn ystod y flwyddyn dreth 2010-11, ni fydd angen i chi anfon Datganiad Blynyddol y Cyflogwr atom. Dylech ddweud wrthym cyn gynted â phosib fel ein bod yn gallu diweddaru ein cofnodion ac arbed anfon nodiadau atgoffa a hysbysiadau cosb dianghenraid.

Y ffordd rwyddaf i ddweud wrthym nad oes gennych Ddatganiad Blynyddol y Cyflogwr i'w wneud yw drwy ddefnyddio'r ffurflenni e-bost strwythuredig (un ar gyfer cyflogwyr, un ar gyfer asiantau sy'n datgan ar ran eu cleientiaid). Mae'n gyflymach, rhatach ac yn haws defnyddio'r ffurflenni e-bost strwythuredig nag ysgrifennu neu ffonio. Gwnawn hefyd gadarnhau drwy e-bost ein bod wedi derbyn eich ffurflen ar-lein ac wedi delio â hi.

Gwnaethom dderbyn 2,000 o hysbysiadau e-bost y llynedd nad oeddem yn gallu eu cysylltu i gofnod cyflogwr felly sicrhewch eich bod yn cofnodi eich cyfeirnod cyflogwr yn gywir ar y ffurflen. I ddefnyddio'r ffurflenni ac am wybodaeth bellach ewch i www.businesslink.gov.uk/noemployerreturn

Ym mis Ebrill 2011 cyflwynir rhai newidiadau i'r wybodaeth sy'n rhaid i gyflogwyr ei rhoi i'w darparwyr yswiriant atebolrwydd cyflogwyr (EL). Mae hyn yn cefnogi menter newydd sy'n anelu at helpu pobl sydd wedi dioddef anaf neu afiechyd yn y gweithle i adnabod yswiriwr EL eu cyflogwr.

Bydd yn orfodol ar yswirwyr i gasglu a chyhoeddi eu data polisi EL, a fydd yn cynnwys yr wybodaeth cyflogwr ychwanegol ganlynol:

Cyfeirnod Cyflogwr (ERN)

Wedi'i gyfeirio ato hefyd yn gyffredin fel 'Cyfeirnod TWE Cyflogwr', caiff yr wybodaeth hon ei rhoi i bob cyflogwr gan CThEM ac fe'i dangosir ar nifer o ffurflenni a dogfennau TWE.

Gwybodaeth atodol

Bydd yn rhaid darparu manylion ar gyfer pob cwmni a gwmpesir gan y polisi. Er enghraifft lle mae polisi yn perthyn i un rhiant-gwmni a phedwar o'i gwmnïau atodol perthynol, mae'n rhaid darparu'r enw a'r ERN ar gyfer y pum cwmni.

Mae'n bwysig fod pob cyflogwr yn ymwybodol o'r newidiadau hyn, am y bydd yswirwyr cyn hir yn gofyn am yr wybodaeth hon cyn cadarnhau sicrwydd ar gyfer yr holl bolisïau newydd ac adnewyddu fel rhan reolaidd o'r broses yswiriant.

Bydd gwybodaeth bellach yn ymddangos yn y Bwletin nesaf. Yn y cyfamser, y pwynt cyswllt gorau ar gyfer unrhyw gwestiynau ynglŷn â'r newidiadau hyn sydd ar ddod yw eich darparwr yswiriant.

Ffurflen P60

Ffurflenni P60 electonig

Ar gyfer y flwyddyn dreth sy'n gorffen 5 Ebrill 2011 gall cyflogwyr a'u hasiantau ddarparu fersiwn electronig o ffurflen P60 i gyflogeion. Gellir canfod cyngor mwy manwl bellach ar ein gwefan yn www.hmrc.gov.uk/news

Nid oes newid i'r terfyn amser ar gyfer darparu'r wybodaeth P60, sef cyn 1 Mehefin 2011 yn yr achos hwn.

Ffurflen P60 bapur

Gellir lawrlwytho ac argraffu'r ffurflen 'P60 (Single sheet)(Cymraeg)(2010-11)' oddi ar ein gwefan. Ewch i www.hmrc.gov.uk/cymraeg/employers/emp-pack.htm a dilyn y cysylltiadau.

Offer TWE Sylfaenol
(CD-ROM y Cyflogwr yn flaenorol)

Caiff Offer TWE Sylfaenol CThEM eu lansio ym mis Chwefror 2011, gan ddisodli CD-ROM y Cyflogwr, a fu'n boblogaidd. Gallwch lawrlwytho'r Offer yn syth i'ch cyfrifiadur o www.businesslink.gov.uk/basicpayetools Unwaith eu bod wedi eu lawrlwytho, byddwch yn gallu trosglwyddo'r wybodaeth o fas data eich CD-ROM y Cyflogwr a chwblhau'r flwyddyn sy'n dod i ben 2010-11 a dechrau 2011-12.

Mae gan yr Offer gyfrifianellau i'ch helpu i redeg eich cyflogres drwy gydol y flwyddyn ac yn cynnwys:

- bas-data'r cyflogwr y gallwch gofnodi manylion eich cyflogeion arno
- Cyfrifiannell P11 a fydd yn cyfrifo ac yn cofnodi treth, cyfraniadau Yswiriant Gwladol a didyniadau Benthyciadau Myfyrwyr bob diwrnod cyflog gyda chofnod Taliad Cyflogaeth P32 wedi'i gysylltu, sy'n cyfrifo'r hyn sydd angen i chi ei dalu i ni
- ystod o gyfrifianellau eraill a fydd yn eich helpu i gyfrifo, er enghraifft, Taliadau Statudol – ac, yn newydd ar gyfer 2011-12, cyfrifiannell Tâl Tadolaeth Statudol Ychwanegol
- ffurflenni rhyngweithiol fel taflenni gwaith P11D
- Parth Dysgu i'ch helpu i ddefnyddio'r cyfrifianellau a deall sut y caiff y cyfrifiadau eu gwneud.

Gallwch ganfod yr holl gymorth ac arweiniad diweddaraf sydd eu hangen arnoch i redeg eich cyflogres yn www.businesslink.gov.uk/paye

Os ydych wedi bod yn defnyddio CD-ROM y Cyflogwr yn ystod 2010-11 sicrhewch eich bod yn gallu trosglwyddo'ch data cyflogai yn llwyddiannus i'r Offer newydd. Os nad ydych eisoes wedi gwneud lawrlwythwch y diweddariad cyfredol i'ch CD-ROM 2010 y gallwch ei ganfod yn www.hmrc.gov.uk/employers/cdrom

Byddwch wedyn yn barod i lawrlwytho'r Offer TWE Sylfaenol y gallwch eu canfod yn www.businesslink.gov.uk/basicpayetools

Y Cyfrifiadur a'r feddalwedd sydd eu hangen arnoch i ddefnyddio'r offer

Er mwyn lawrlwytho'r Offer yn llwyddiannus mae angen i'ch cyfrifiadur fod yn:

- cyfrifiadur personol (PC) yn defnyddio naill ai Microsoft Windows 7, Vista Premium, XP Professional
- Apple Mac yn rhedeg Mac OS X 10.5 neu OS X 10.6
- PC yn defnyddio Linux.

Bydd arnoch hefyd angen:

- Porwr gwe (er enghraifft Internet Explorer 6 neu'n ddiweddarach, Mozilla FireFox 3.6, Google Chrome 5.0, Safari 5.00, Opera)
- Adobe Acrobat Reader
- Adobe Flash Player 9 neu'n uwch.

Os nad yw'r cynnyrch Adobe hyn eisoes wedi'u gosod gennych ar eich cyfrifiadur gallwch eu lawrlwytho'n rhad ac am ddim o www.adobe.com/products

erthygl yn parhau >

Rhif ffôn newydd ar gyfer ymholiadau treth cyflogeion Saesneg eu hiaith

Gwybodaeth o bwys

Yr isafswm gofynion awgrymedig sydd eu hangen arnoch i redeg yr Offer yw
- 512MB RAM
- prosesydd 1GHz
- 300MB o le ar gael ar y disg.

Rydym wedi gwrando ar eich awgrymiadau dros y blynyddoedd diwethaf ac wedi gwneud rhai gwelliannau rydym yn gobeithio bydd yn eich helpu. Eleni, rydym wedi cyflwyno
- peiriant bas-data newydd sy'n gwella cyflymder a dibynnedd – yn arbennig ar gyfer y rhai hynny ohonoch sy'n defnyddio'r Cyfrifiannell P11
- gwyliwr aml-dudalen integredig ar gyfer y P11 a chrynodebau eraill
- yr opsiwn i chi wirio'n awtomatig ar gyfer diweddariadau ar-lein a'u gosod – mae'n rhaid eich bod wedi eich cysylltu i'r rhyngrwyd
- modiwlau ar wahân yn y Parth Dysgu sy'n golygu bod ond yn rhaid i chi lawrlwytho a gosod y modiwlau sydd eu hangen arnoch.

Rydym wedi profi'r Offer newydd â chyflogwyr, ond ar adegau mae yna newidiadau deddfwriaethol ac estyniadau i gyfrifiaduron a meddalwedd sy'n golygu bod yn rhaid diweddaru'r Offer. Er mwyn sicrhau eich bod yn gallu gweithredu TWE yn gywir ar gyfer eich cyflogeion, sicrhewch eich bod yn lawrlwytho'r diweddariadau i'ch cyfrifiadur pan eu bod ar gael.

Byddwn yn gosod yr wybodaeth sydd ei hangen arnoch i redeg eich cyflogres ar ein gwefan. Bydd angen hon arnoch i redeg eich cyflogres yn gywir ar gyfer eich cyflogeion.

Sicrhewch eich bod yn ymrestru ar gyfer ein rhybuddion e-bost ac yn ymweld â'r wefan yn gyson er mwyn cadw i'r funud â'r newidiadau a fydd o bosib yn effeithio arnoch chi a'ch cyflogeion. Ewch i www.businesslink.gov.uk/paye

At sylw cyflogwyr – rhif ffôn newydd ar gyfer ymholiadau treth cyflogeion Saesneg eu hiaith (nid yw rhif y Ganolfan Gyswllt Gymraeg wedi newid). Dim ond un rhif ffôn sydd bellach ar gyfer cyflogeion Saesneg eu hiaith i'w alw am gymorth â'u hymholiadau treth – 0845 300 0627.

Mae'r rhif newydd yn disodli mwy na 60 o hen rifau, y cânt eu 'troi i ffwrdd' cyn hir. Yn y cyfamser, byddai'n ddefnyddiol pe gallech – os yn gymwys – ddiweddaru unrhyw ohebiaeth yr anfonwch i'ch cyflogeion Saesneg eu hiaith ac o bosib eich safleoedd mewnrwyd/rhyngrwyd, i adlewyrchu'r newid hwn.

Os oes gennych chi neu eich cyflogeion Cymraeg eu hiaith unrhyw ymholiadau perthnasol (er enghraifft os am gadarnhau cod treth, neu, yn achos y cyflogwr, cymorth â gweithredu'r gyflogres), parhewch i alw'r Ganolfan Gyswllt Gymraeg ar 0845 302 1489.

A fyddai arbed hyd at £50,000 yn hwb i ddechrau eich busnes newydd?

Yn ei gyllideb fis Mehefin diwethaf, cyhoeddodd y Canghellor gynllun i gynorthwyo busnesau newydd yn ystod eu blwyddyn gyntaf o fasnachu.

Mae'r cynllun – a elwir y Gwyliau Cyfraniadau Yswiriant Gwladol y Cyflogwr ar gyfer Busnesau Newydd Rhanbarthol (gwyliau CYG) – ar gael ar gyfer busnesau newydd y cânt eu sefydlu ar neu ar ôl 22 Mehefin 2010 ac a fydd yn rhedeg tan 5 Medi 2013. Mae nifer o fusnesau newydd eisoes yn buddio o'r 'gwyliau' y mae'r cynllun yn eu darparu.

O dan y cynllun tair blynedd, gall busnesau newydd cymwys gymryd gwyliau rhag talu CYG ar gyfer pob un o'r 10 cyflogai cyntaf maent yn eu cyflogi yn ystod eu blwyddyn gyntaf mewn gweithrediad. Bydd pob gwyliau yn para am y 52 wythnos gyntaf y mae'r cyflogai yn ei swydd cyn belled â bod yr wythnosau hyn yn syrthio o fewn y cyfnod tair blynedd o wyliau.

Gall busnesau newydd sy'n manteisio ar y cynllun arbed hyd at uchafswm o £50,000 mewn CYG y Cyflogwr – uchafswm o £5,000 y cyflogai, ar gyfer hyd at 10 o gyflogeion.

Os sefydlwyd eich busnes newydd ar neu ar ôl 22 Mehefin 2010 ac mae wedi ei leoli yn un o'r gwledydd neu ranbarthau a restrir, mae'n bosib y byddwch yn gymwys i fuddio o'r gwyliau CYG ac mae'n bosib y bydd hyd yn oed ad-daliad o ychydig o'r CYG y Cyflogwr rydych eisoes wedi'i dalu yn ddyledus i chi. Y gwledydd a'r rhanbarthau cymwys yw:

– Gogledd Iwerddon	– Dwyrain Canolbarth Lloegr	– De-Orllewin Lloegr
– Yr Alban	– Gogledd-Ddwyrain Lloegr	– Gorllewin Canolbarth Lloegr
– Cymru	– Gogledd-Orllewin Lloegr	– Swydd Efrog a'r Humber

Mae'r Mesur sy'n cynnwys y ddeddfwriaeth gwyliau CYG bellach wedi ei gyhoeddi ac yn mynd drwy ei gamau Seneddol ar hyn o bryd. Gobeithiwn gadarnhau yn y rhifyn nesaf o Fwletin y Cyflogwr fod y ddeddfwriaeth wedi derbyn Cydsyniad Brenhinol.

Bydd angen i gyflogwyr sy'n manteisio ar y gwyliau CYG i gyflwyno Datganiad Diwedd Blwyddyn yn darparu manylion y gwyliau CYG a hawliwyd. Mae hyn yn atodol i'ch Datganiad Blynyddol y Cyflogwr (P35 a P14) ac mae'n rhaid iddo hefyd ein cyrraedd erbyn 19 Mai 2011. Bydd manylion llawn yr hyn sydd angen i chi ei wneud ar ddiwedd y flwyddyn ar gael cyn hir yn www.businesslink.gov.uk/nicsholiday

Yn y cyfamser gallwch ymweld â'r wefan uchod i ddarganfod os ydych yn gymwys ar gyfer y gwyliau ac ar gyfer unrhyw wybodaeth bellach mae'n bosib y bydd ei hangen arnoch ynglŷn â'r cynllun.

Newidiadau codio newydd ar gyfer 2011-12

Rydym wedi gwneud rhai diwygiadau i'r Rheoliadau TWE a fydd yn dod i rym o 6 Ebrill 2011. Mae'r rhain yn ymwneud â newid y cod treth TWE rydym yn eich awdurdodi i'w weithredu yn y sefyllfaoedd canlynol:

- Cyflogai'n dechrau gweithio i chi ond heb ddarparu ffurflen P45.

Bydd hyn yn effeithio ar unigolion sydd heb lenwi ffurflen P46 cyn eu diwrnod cyflog cyntaf. Ar hyn o bryd, lle mae cyflogai'n methu a chwblhau'r P46, rydych chi'n ei gwblhau hyd eithaf eich gwybodaeth, yn ticio blwch gwirio C ac yn ei anfon atom ni i ddiweddaru eu cofnod ac anfon cod treth os yn angenrheidiol. Yn y cyfamser rydych yn awdurdodedig i weithredu cod BR ar sail gronnus. Canlyniad hyn, o bosib, fydd cyflogeion ar gyflog uwch yn talu llai o dreth na'r hyn sy'n ddyledus a thandaliad yn codi ar ddiwedd y flwyddyn. O Ebrill 2011 byddwn yn newid y cod rydych yn ei weithredu i 0T (sero lwfansau) yn lle BR, fel bod y cyflogai yn talu treth ar y gyfradd sylfaenol, uwch ac ychwanegol fel yn gymwys.

- Cyflogwr yn gwneud taliad i unigolyn ar ôl iddynt adael eu cyflogaeth.

Ar hyn o bryd mae'r cyfarwyddyd yn dweud fod yn rhaid i chi ddidynnu treth ar y gyfradd sylfaenol (BR) ar unrhyw daliadau a wnaed i gyflogai ar ôl i'r gyflogaeth orffen, os nad ydynt wedi eu cynnwys yn eu ffurflen P45. Fodd bynnag, os yw'r unigolyn yn atebol i dreth ar y gyfradd uwch neu ychwanegol, canlyniad hyn fydd tandaliad y byddai'n rhaid i ni ei gasglu oddi wrth y cyflogai. O Ebrill 2011 byddwn yn newid y cod rydym yn eich awdurdodi i'w weithredu o BR i 0T. Bydd cod 0T yn sicrhau bod treth yn cael ei didynnu o daliadau ar y gyfradd sylfaenol, uwch ac os yn gymwys, y gyfradd ychwanegol o dreth.

- Cyflogwr yn parhau i dalu unigolyn fel cyflogai ac yna'n dechrau talu pensiwn iddo/iddi.

Mae'n dod yn gyffredin i gyflogeion ddechrau derbyn pensiwn galwedigaethol tra'n parhau i fod yn gyflogedig gyda'u cyflogwr cyfredol. Yn yr achos hwn mae'r cyfarwyddyd cyfredol yn dweud wrthych am barhau i ddefnyddio'r un cod treth yn erbyn incwm cyflogaeth unigolyn tan ein bod yn anfon cod newydd. Rydym hefyd yn dweud wrthych am weithredu'r un cod treth yn erbyn y taliadau pensiwn ar sail Wythnos 1/Mis 1. Canlyniad hyn, o bosib, yw bod y cyflogai yn derbyn mwy o lwfans personol nag y dylent fod yn ei wneud a thandaliad o dreth yn codi ar ddiwedd y flwyddyn dreth. Er mwyn unioni hyn, o Ebrill 2011 bydd y cod awdurdodedig i'w weithredu yn erbyn y taliadau pensiwn galwedigaethol yn newid i cod 0T, pan fod y cyflogai yn parhau i weithio i chi.

Caiff arweiniad manwl i'r cyflogwr ynglŷn â'r P46 sydd heb ei chwblhau ei gynnwys yn y llyfryn cymorth *E13 Day to Day Payroll* [llyfryn ar gyfer y nifer bach iawn o gyflogwyr sydd wedi eu heithrio rhag cyflwyno ar-lein], a'r newidiadau eraill eu cynnwys yn y *CWG2 Employer Further Guide to PAYE and NICs*. Cyhoeddir fersiwn 2011 o'r ddau lyfryn cymorth hyn ar-lein ym mis Chwefror 2011.

Gwybodaeth o bwys

Pecynnau'r Cyflogwr a gwybodaeth TWE nawr ar-lein

O 2011 ymlaen, ni fyddwch bellach yn derbyn fersiwn papur o Becyn y Cyflogwr neu Becyn y Gyllideb a oedd yn flaenorol yn cynnwys Bwletin y Cyflogwr

Mae'r rhain yn cael eu disodli gan ffurflenni a llyfrau cymorth ar-lein y gellir eu lawrlwytho a'u hargraffu. Gallwch eu canfod yn www.hmrc.gov.uk/cymraeg/employers/index.htm gan ddilyn y cysylltiadau ar gyfer **Pecyn y Cyflogwr** a **Bwletin y Cyflogwr**. Ceir arweiniad a chynnyrch hefyd yn www.businesslink.gov.uk/employerpackandbulletins (sylwer mai gwasanaeth Saesneg yn unig yw hwn).

Rhybuddion e-bost (gwasanaeth Saesneg yn unig)

Er mwyn ein galluogi i roi gwybod i chi pan fod cynnyrch (Saesneg) ar-lein wedi ei ddiweddaru, rydym wedi cyflwyno cyfleuster ar-lein. Mae angen i chi gofrestru eich manylion er mwyn defnyddio'r cyfleuster hwn ond unwaith eich bod wedi cofrestru byddwn yn anfon rhybudd atoch ym mis Chwefror, Ebrill a Medi. Gwnawn hefyd anfon rhybudd atoch os oes angen i chi lawrlwytho unrhyw newidiadau allweddol ar gyfer Offer TWE Sylfaenol CThEM (CD-ROM y Cyflogwr yn flaenorol).

Awgrymwn yn gryf eich bod yn cofrestru ar gyfer y cyfleuster hwn fel nad ydych yn colli unrhyw newidiadau pwysig. Mae'n gyflym ac yn rhwydd gwneud hyn, ewch i www.businesslink.gov.uk/hmrcemployeremailalerts a llenwi'r ffurflen gofrestru ar-lein.

Dywed adborth wrthym fod rhai cyflogwyr yn credu unwaith eu bod wedi cofrestru i gyflwyno ar-lein, y byddant yn derbyn y rhybudd e-bost hwn. Nid dyma'r achos a bydd yn rhaid i chi gofrestru ar wahân i ddefnyddio'r cyfleuster hwn.

Ffurflenni ac arweiniad

Am fod yn rhaid i'r rhan fwyaf o gyflogwyr bellach gyflwyno ar-lein, byddwn hefyd yn disgwyl i chi ddefnyddio ein ffurflenni ac arweiniad ar-lein. Mae deunydd Pecyn y Cyflogwr a dogfennau hanfodol ar gael oddi ar ein gwefan yn www.hmrc.gov.uk/cymraeg/employers/index.htm

Symud ar-lein – derbyn ffurflenni P9 a P6 yn electronig

A ydych chi'n dal i dderbyn eich ffurflenni codio TWE ar bapur? Os felly, darllenwch ymlaen.

Mae llawer o gyflogwyr wedi dweud wrthym gymaint yn fwy cyfleus ac effeithlon yw iddynt dderbyn hysbysiadau cod yn electronig, yn hytrach nag ar bapur, ac yn difaru eu bod heb wneud hynny'n gynt!

Unwaith eich bod yn cofrestru ar gyfer gwasanaeth 'TWE Ar-lein i Gyflogwyr' CThEM, byddwn yn rhoi'r gorau'n awtomatig i anfon ffurflenni P9 a P6 'Hysbysiad o'r cod treth i'w ddefnyddio ar gyfer cyflogai' atoch drwy'r post, ac yn eu hanfon atoch yn awtomatig ar-lein (sylwer mai yn Saesneg yn unig yr anfonir y ffurflenni hyn).

Mae dwy ffordd o gyrchu'r ffurflenni y mae CThEM yn eu hanfon atoch ar-lein.

- Mewngofnodwch i'r gwasanaeth 'TWE ar-lein ar gyfer cyflogwyr' ar wefan CThEM a dewiswch naill ai; *'tax code notices'*, *'student loan notices'* neu *'employer notices'*. Awgrymwn yn gryf eich bod yn darparu cyfeiriad e-bost ar gyfer y gwasanaeth, fel ei fod yn anfon rhybudd e-bost atoch bob tro y bydd CThEM yn anfon un o'r ffurflenni hyn atoch.
- Defnyddio'r Gwyliwr Bwrdd Gwaith TWE (PDV). Rhaglen yw hon y gallwch ei lawrlwytho a'i gosod oddi ar wefan CThEM. Mae'n arbennig o addas ar gyfer cyflogwyr sy'n disgwyl nifer fawr o ffurflenni.

Am fwy o wybodaeth – ewch i www.businesslink.gov.uk/payeonlineforms

A ydych chi'n dal i ddefnyddio Tablau Dull Hir?

A ydych chi'n dal i ddefnyddio Tablau Dull Hir i gyfrifo treth, cyfraniadau Yswiriant Gwladol (YG) a didyniadau Benthyciadau Myfyrwyr eich cyflogeion?

Yn draddodiadol, mae nifer o gyflogwyr wedi parhau i ddefnyddio tablau dull hir, naill ai fel copi papur neu electronig, bob diwrnod cyflog i gyfrifo treth, YG a didyniadau Benthyciad Myfyrwyr eu cyflogeion. Am bob taliad a wnaed i bob cyflogai mae'n rhaid i'r cyflogwr ymgymryd â nifer o dasgau sy'n cymryd llawer o amser, gyda mwy o botensial ar gyfer gwall dynol.

Os ydych chi'n un o'r cyflogwyr hynny sy'n parhau i ddefnyddio Tablau Dull Hir mae'n bosib y ffeindiwch ei bod yn fwy effeithlon i ddefnyddio pecyn cyflogres masnachol. Fel opsiwn arall, mae Cyllid a Thollau EM yn darparu Cyfrifiannell P11 a fydd yn cyfrifo ac yn cofnodi treth, YG a didyniadau Benthyciadau Myfyrwyr eich cyflogeion bob diwrnod cyflog. Mae'r Cyfrifiannell P11 yn yr Offer TWE Sylfaenol ar gael i'w lawrlwytho o www.businesslink.gov.uk/basicpayetools

Os, fodd bynnag, eich bod yn parhau i weithredu cyflogres â llaw mae yna opsiwn arall heblaw'r tablau dull hir. Yn hytrach na chyfeirio at y tablau mae yna gyfrifianellau sy'n hawdd i'w defnyddio ar gael i'ch cynorthwyo i gwblhau eich Taflen(ni) Gwaith Didyniadau.

Mae gan bob cyfrifiannell fotymau *help* defnyddiol os oes angen cymorth arnoch pan yn eu defnyddio o'r newydd. Mae'r cyfrifianellau hyn ar gael o'r lleoliadau canlynol:

- Cyfrifiannell TWE yn www.hmrc.gov.uk/calcs/paye.htm
- Cyfrifiannell YG yn www.hmrc.gov.uk/calcs/nice.htm
- Casgliad o Gyfrifianellau Benthyciadau Myfyrwyr yn yr Offer TWE Sylfaenol ac ar gael i'w lawrlwytho o www.businesslink.gov.uk/basicpayetools

Mae'r tablau treth ac YG a didyniadau Benthyciadau Myfyrwyr nawr ar gael mewn fformat sy'n hawdd i'w argraffu a gellir eu cyrchu o www.hmrc.gov.uk/cymraeg/employers/index.htm gan ddilyn y cysylltiadau, a hefyd o www.businesslink.gov.uk/payeformsandpublications (dogfennau Saesneg yn unig).

Pecyn cymorth newydd ar gael i'ch cynorthwyo â ffurflenni diwedd blwyddyn cyflogwyr

Rydym wedi cyhoeddi pecyn cymorth newydd sy'n ymdrîn â threuliau a buddiannau cyflogaeth.

Lluniwyd y pecyn er mwyn cynorthwyo asiantau a chynghorwyr wrth gwblhau ffurflenni diwedd blwyddyn cyflogwyr (P35, P9D, P11D a P11D(b)) ar ran eu cleientiaid, er mae'n bosib y bydd y cyflogwyr eu hunain hefyd yn teimlo ei fod o fudd wrth gwblhau'r ffurflenni hyn (sylwer mai yn Saesneg yn unig y darperir y pecyn).

Mae'n bosib hefyd y bydd asiantau treth a chynghorwyr yn teimlo ei fod o fudd fel ffynhonnell i gyfeirio ati wrth gynghori eu cleientiaid ar dreuliau a buddiannau sy'n deillio o faterion cyflogaeth.

Cyhoeddir pecyn cymorth newydd sy'n cwmpasu CYG a thaliadau statudol yn ogystal erbyn diwedd mis Chwefror 2011.

Mae'r pecynnau cymorth yn hawdd i'w defnyddio a'r defnydd ohonynt yn gwbl wirfoddol. Caiff pob pecyn cymorth ei ddiweddaru'n flynyddol i adlewyrchu unrhyw newidiadau mewn deddfwriaeth.

Beth yw pecyn cymorth?

Mae gan bob pecyn 3 elfen allweddol:

1. Rhestr wirio – mae hon nodi'r risgiau allweddol.
2. Nodiadau eglurhaol – mae rhain nodi'r risg o gamgymeriadau sylfaenol, sut i leihau'r risg hynny ac amlinelliad byr ynghylch sut y delir â'r risgiau hynny at ddibenion treth.
3. Croesgyfeirio – mae hyn yn darparu modd cyflym a rhwydd o gyfeirio at arweiniad mwy manwl, os oes angen.

Diben y pecynnau cymorth

Diben y pecynnau cymorth yw cynorthwyo i atal camgymeriadau cyffredin cyn bod Datganiadau'n cael eu cyflwyno. Dylai hyn leihau'r angen am wiriadau cydymffurfiad CThEM ar ôl i gamgymeriad godi, gan arbed amser a chostau i bawb.

Mae'r pecynnau cymorth yn amlygu gwallau cyffredin rydym yn eu canfod mewn Datganiadau, o'n gwaith cydymffurfiad, ac yn amlygu'r camau y gellir eu cymryd er mwyn lleihau'r camgymeriadau hynny. Gall defnyddio'r offer hefyd fod o gymorth i roi sicrwydd i ddangos fod "gofal rhesymol" wedi ei gymryd.

Pa becynnau cymorth eraill sydd ar gael?

Hyd yn hyn, rydym wedi cyhoeddi 12 pecyn cymorth yn cwmpasu nifer o feysydd allweddol.

Cyhoeddir y pecynnau cymorth mewn fformat PDF yn adran Asiantau ein gwefan yn www.hmrc.gov.uk/agents/prereturn-support-agents.htm

Angen help gyda'ch Datganiad Blynyddol y Cyflogwr?

Mae Timau Addysg a Chymorth Busnes (BEST) yn cynnig cyngor gwerthfawr yn rhad ac am ddim i gyflogeion ar amrywiaeth o faterion yn ymwneud â'r gyflogres.

Wrth i ddiwedd y flwyddyn dreth agosáu a ydych wedi ystyried sut i gyflwyno eich Datganiad Blynyddol y Cyflogwr? A ydych chi'n gyflogwr newydd sy'n cyflwyno am y tro cyntaf? Os hoffech wybod mwy, beth am fynychu gweithdy Datganiad Blynyddol y Cyflogwr lle bydd ein cynghorwyr hyfforddedig yn ymdrin â:

- golwg cyffredinol o'r broses diwedd blwyddyn
- paratoi ar gyfer Datganiadau blynyddol
- gwasanaethau ar-lein
- cwblhau'r Daflen Waith Didyniadau P11 neu gofnod cyfatebol
- anfon P35 a P14 ar-lein gan ddefnyddio'r Offer TWE Sylfaenol
- cwblhau'r P14
- cwblhau'r P35
- talu unrhyw dandaliadau/gordaliadau sy'n ddyledus ar ddiwedd y flwyddyn
- diwygio eich Datganiad gan ddefnyddio TWE ar-lein ar gyfer cyflogwyr

Os ydych yn talu treuliau neu'n darparu buddiannau i gyflogeion mae'n bosib y dymunwch hefyd fynychu'r gweithdy Datganiad Treuliau a Buddiannau Diwedd Blwyddyn (P11D).

Mae'r pynciau yr ymdrinnir â hwynt yn cynnwys:

- golwg ar dreuliau a buddiannau
- goddefebau
- Cytundebau Setliad TWE (PSA)
- cyflwyniad i P9D/P11D
- ffurflen P11D
- Yswiriant Gwladol Dosbarth 1A a ffurflen P11D(b)
- ymrwymiadau cyflogwyr

Am restr lawn o'n gweithdai a chyflwyniadau (sylwer mai digwyddiadau Saesneg yn unig yw'r rhain) ewch i www.hmrc.gov.uk/bst neu cysylltwch â'n tîm cadw lle ar 0845 603 2691 i ganfod mwy ynglŷn â chynnwys cyrsiau ac argaeledd.

Symud tuag at Wybodaeth Amser Real

Mae Gwybodaeth Amser Real [RTI] yn flaenoriaeth gan y Llywodraeth i wella TWE yn ogystal â chynorthwyo cyflwyniad Credydau Cyffredinol. Ei nod yw gwneud TWE yn llai drud ar gyfer cyflogwyr a, thros amser, dylai CThEM fod yn gallu diwygio mwy o godau treth yn gyflymach yn ystod y flwyddyn - sy'n golygu llai o ordaliadau a thandaliadau ar gyfer trethdalwyr.

Bydd yr ail gyfnod o ymgynghori ynghylch casglu Gwybodaeth Amser Real yn dod i ben ar 28 Chwefror. Caiff ein cynigion eu cynnwys mewn dogfen ymgynghori a ellir ei chanfod ar wefan CThEM yn www.hmrc.gov.uk/consultations/ yna cliciwch ar *current consultations*.

Mae'n dal i fod amser byr i chi gael dweud eich dweud – a byddwn yn croesawu eich barn. Os nad ydych eisoes wedi ymateb e-bostiwch eich ymatebion i paye.consultation@hmrc.gsi.gov.uk erbyn diwedd mis Chwefror 2011.

Beth fydd yn wahanol o dan Gwybodaeth Amser Real?

Bydd cyflogwyr yn parhau i fod yn gyfrifol am gyfrifo a didynnu treth, CYG a didyniadau benthyciadau myfyrwyr, yn yr un modd ag y maent eisoes yn gwneud. Fodd bynnag, o dan RTI bydd cyflogwyr yn anfon manylion taliadau net i gyflogeion at CThEM bob diwrnod cyflog – yn hytrach nag ar ôl i'r flwyddyn ddod i ben. Lle mae cyflogwyr yn talu eu cyflogeion drwy Bacs, byddant yn anfon data RTI fel rhan o'r cyflwyniad Bacs. Bydd cyflogwyr nad sy'n defnyddio Bacs i dalu eu cyflogeion yn gallu anfon yr wybodaeth dros y rhyngrwyd drwy Borth y Llywodraeth. Bydd Bacs yn anfon y data RTI at CThEM – a bydd CThEM yn talu'r gost hon. Lle bydd cyflogwyr llai yn defnyddio asiant i gyfrifo treth etc, ond yn talu'r cyflogeion eu hunain, bydd yr asiant yn gallu defnyddio Porth y Llywodraeth.

Caiff meddalwedd cyflogres cyflogwyr ei ddiweddaru fel bod y data'n cael ei echdynnu'n awtomatig yn unol â safon gyffredin. Am fod gwybodaeth yn cael ei hanfon bob diwrnod cyflog, nid oes angen cysoni pellach – sy'n golygu y gallai P35 a P14 gael eu diddymu'n raddol. Caiff y broses cychwyn ac ymadael ei symleiddio hefyd – gan leihau costau ar gyfer CThEM a chyflogwyr.

Rydym yn rhagweld dod â'r cyflogwyr cyntaf i'r system newydd ym mis Ebrill 2012 gyda phob cyflogwr yn defnyddio'r system newydd erbyn mis Hydref 2013.

Wrth i ni nesáu at ddiwedd y cyfnod ymgynghori rydym eisoes wedi siarad â nifer o bobl ac yn ystyried yr amryw bwyntiau da a godwyd. Byddwn yn cyhoeddi rhestr derfynol o eitemau data erbyn diwedd mis Mawrth. Byddwn yn parhau i weithio gyda datblygwyr meddalwedd, cyflogwyr a biwro'r gyflogres er mwyn datblygu'r system newydd dros y misoedd sydd i ddod.

Cosbau yn ymwneud â thaliadau TWE hwyr

Gwnaethom sôn wrthych am gyflwyniad cosbau TWE am gyflwyno'n hwyr mewn rhifynnau blaenorol o Fwletin y Cyflogwr. Caiff y cosbau hyn eu codi ar ôl i'r flwyddyn ddod i ben, ar gyfer pob taliad sy'n hwyr. Fe'u codir ar gyfraddau rhwng 0% a 5% yn dibynnu ar sawl taliad hwyr a fu, a pha mor hwyr oeddynt. Gallwch ganfod mwy o wybodaeth ynglŷn â'r cosbau hyn yn www.hmrc.gov.uk/paye/problems-inspections/late-payments.htm

Gwnaethom hefyd sôn yn y rhifyn diwethaf o'r Bwletin, ein bod wedi gweld cynnydd croesawgar iawn yn y nifer o gyflogwyr sy'n talu ar amser, a gwnaethom gynnig peth cyngor pellach i helpu i sicrhau bod eich taliadau yn ein cyrraedd ni ar amser. Rydym yn falch bod y gwelliant cynnar hwn wedi ei gynnal ond mae oddeutu 1 ym mhob 4 o dalwyr misol yn dal i fod yn hwyr gyda'u taliadau.

Gellir canfod manylion ein terfynau amser TWE yn www.businesslink.gov.uk/payepaymentdeadlines a dylech sicrhau bod y taliad llawn yn ein cyrraedd ni erbyn y dyddiad penodedig. Os ydych yn profi anawsterau ac yn credu na fyddwch yn gallu ein talu, mae'n hanfodol eich bod yn cysylltu â ni i drafod eich sefyllfa cyn bod eich taliad yn ddyledus.

Lluniwyd ein Gwasanaeth Cymorth Taliadau Busnes er mwyn diwallu anghenion busnesau ac unigolion sy'n profi anawsterau dros dro â thalu eu treth. Gallant drafod eich amgylchiadau a gweithio gyda chi i ddatrys y sefyllfa. Gellir canfod gwybodaeth bellach ynglŷn â'r Gwasanaeth Cymorth Taliadau Busnes, gan gynnwys yr wybodaeth a fydd angen i chi ei darparu, yn www.hmrc.gov.uk/payinghmrc/problems/bpps.htm

Nid ydym eisiau codi cosbau, ac mae llawer o gyflogwyr yn wynebu cosbau y gellir eu hosgoi'n llwyr.

Mae gan gyflogwyr ddyletswydd i gyflwyno eu taliadau TWE ar amser ac mae o fudd i bawb os nad ydym yn gwastraffu adnoddau ac arian cyhoeddus yn mynd i'r afael â chyflogwyr sy'n gallu talu ar amser ond nad sy'n gwneud hynny. Os nad ydych yn credu y gallwch dalu o fewn y terfyn amser yna mae'n rhaid i chi gysylltu â ni cyn bod eich taliad yn ddyledus.

Dros weddill y flwyddyn, yn ogystal ag ailadrodd a chryfhau'r negeseuon rydym yn eu cyhoeddi ynglŷn â chosbau am daliadau TWE hwyr, byddwn hefyd yn talu sylw agos i'n gobaith o leihau'r nifer o gyflogwyr sy'n parhau i dalu'n hwyr.

Cosbau yn ymwneud â ffurflenni TWE ar gyfer cyflogeion sy'n cychwyn a gadael

Cosbau ar gyfer cyflogwyr â 50 neu'n fwy o gyflogeion, sydd ddim yn cyflwyno eu ffurflenni ar-lein ar gyfer cyflogeion sy'n cychwyn a gadael (P45, P46, P46(Pen) a P46(Expat)).

Yn y rhifyn diwethaf o Fwletin y Cyflogwr gwnaethom esbonio na fyddwn yn anfon unrhyw gosbau at gyflogwyr sydd heb gyflwyno eu ffurflenni TWE ar-lein ar gyfer cyflogeion sy'n cychwyn a gadael. Ar yr un pryd byddwn yn bwrw golwg dros eich ymatebion i'r llythyron rhybudd y gwnaethom eu hanfon atoch ym mis Rhagfyr 2009.

Rydym wedi adolygu'r adborth y gwnaethom ei dderbyn ac wedi cyflwyno newidiadau i'n systemau er mwyn mynd i'r afael â'r materion a godwyd. Byddwn yn dechrau anfon y cosbau cyntaf at gyflogwyr sydd â 50 neu'n fwy o gyflogeion, ac sydd wedi cyflwyno ffurflenni TWE ar gyfer cyflogeion sy'n cychwyn a gadael ar bapur yn y cyfnod o 6 Ionawr 2011 i 5 Ebrill 2011. Anfonir yr hysbysiadau cosb cyntaf yn fuan ar ôl 6 Ebrill 2011.

Bu'n ofynnol ar gyflogwyr sydd â 50 neu'n fwy o gyflogeion i gyflwyno eu ffurflenni TWE ar-lein ar gyfer cyflogeion sy'n cychwyn a gadael o 6 Ebrill 2009 a bydd yn ofynnol ar y rhai hynny sydd â llai na 50 o gyflogeion i wneud yr un peth o 6 Ebrill 2011.

Arweiniad diwygiedig ar gyfer Cydymffurfiad Cyflogwyr

Arweiniad mewnol diwygiedig ar gyfer staff Cydymffurfiad Cyflogwyr

Mae CThEM wedi lansio prosiect i foderneiddio a diweddaru ei Arweiniad Gweithredol ar gyfer Cydymffurfiad (COG) mewnol.

Cynhyrchwyd arweiniad ar gyfer Cydymffurfiad Cyflogwyr wedi'i foderneiddio gan gyfnod un y prosiect, ac y mae staff bellach yn ei ddefnyddio yn lle'r Llawlyfr Cydymffurfiad Cyflogwyr.

Cyflwynwyd arweiniad wedi'i ddiweddaru ar gyfer Cydymffurfiad Cyflogwr ar ein gwefan ym mis Rhagfyr, ac ar yr un pryd cafodd fersiwn y rhyngrwyd o'r Llawlyfr Cydymffurfiad Cyflogwyr ei ddileu.

Bydd cyfnodau pellach o'r prosiect Arweiniad Gweithredol ar gyfer Cydymffurfiad yn cyflwyno newidiadau i'n harweiniad mewnol y gellir ei ganfod ar hyn o bryd yn y Llawlyfr Cydymffurfiad, a byddant yn ymdrin â meysydd sy'n cynnwys gwiriadau cydymffurfiad a chosbau.

Darperir diweddariadau pellach ar ein gwefan ac mewn rhifynnau pellach o Fwletin y Cyflogwr.

Sicrhewch eich bod yn defnyddio manylion banc cywir CThEM

Cefndir

Yn flaenorol bu'r mwyafrif o gyfrifon banc CThEM gyda Banc Lloegr ond yn 2009 symudodd CThEM at ddau gyflenwr bancio newydd:

- NatWest (rhan o'r *Royal Bank of Scotland Group*) ar gyfer taliadau a wnaed drwy giro banc
- Citi ar gyfer taliadau a wnaed drwy Gredyd Uniongyrchol Bacs, bancio rhyngrwyd/teleffon a CHAPS

Ers i'r cyfrifon newydd gael eu cyflwyno yn 2009 mae CThEM wedi parhau i dderbyn taliadau a wnaed gan ddefnyddio hen fanylion cyfrif neu slipiau talu i mewn a slipiau talu Banc Lloegr. Fodd bynnag, mae'r hen godau didoli banc a rhifau cyfrif nawr yn cau a ni chaiff slipiau talu â manylion Banc Lloegr arnynt eu derbyn mwyach.

Er mwyn sicrhau bod eich taliad wedi ei dderbyn mae bellach angen i chi ddefnyddio manylion cyfrif banc a slipiau talu newydd CThEM.

Pa fanylion cyfrif banc ddylech chi eu defnyddio?

Talu drwy giro banc

Pan yn talu CThEM dylech ddefnyddio'r slipiau talu NatWest newydd a ddarperir yn y llyfrynnau talu P30B. Gallwch adnabod slip talu newydd am y bydd 'Natwest Bank PLC' arno.

Pan yn talu drwy giro banc dylech ddefnyddio slip talu CThEM swyddogol yn unig. Mae slipiau talu swyddogol yn cynnwys yr wybodaeth banc gywir ar gyfer CThEM ac yn sicrhau fod taliad yn cyrraedd eich cyfrif ar amser.

Talu drwy Gredyd Uniongyrchol Bacs, bancio rhyngrwyd/teleffon neu CHAPS

Pan yn talu CThEM drwy Gredyd Uniongyrchol Bacs, bancio rhyngrwyd/teleffon neu CHAPS, sicrhewch eich bod yn defnyddio'r manylion Citi newydd:

Swyddfa Gyfrifon	Cod didoli	Rhif cyfrif	Enw'r cyfrif	Cyfeiriad banc
Cumbernauld	08 32 10	12001039	HMRC Cumbernauld	Citi Citigroup Centre Canada Square Canary Wharf London E14 5LB
Shipley	08 32 10	12001020	HMRC Shipley	

Ni ddylech ddefnyddio'r rhifau cyfrif a ddangosir ar flaen eich slip talu CThEM i wneud taliad drwy Bacs Direct, bancio rhyngrwyd/teleffon neu CHAPS am mai dim ond ar gyfer taliadau a wnaed drwy giro banc y mae'r rhifau cyfrif hyn ar eu cyfer.

Os ydych yn talu drwy fancio rhyngrwyd neu teleffon ac yn defnyddio rhestr buddiolwr (a elwir weithiau yn 'rhestr talai') yna nid oes eisiau i chi wneud unrhyw newidiadau am fod y rhestri hyn wedi eu diweddaru'n ganolog gan y diwydiant bancio.

Fodd bynnag, os ydych yn ein talu gan ddefnyddio templedi eraill neu drafodion rydych wedi eu cadw at ddibenion bancio ar-lein yna mae angen i chi drefnu bod y rhain yn cael eu diweddaru gyda'r manylion banc Citi newydd uchod.

erthygl yn parhau >

Cymerwch ofal wrth gofnodi manylion cyfrif banc CThEM. Os ydych yn gwneud camgymeriad â'r cod didoli neu'r rhif cyfrif mae'n bosib y bydd yna oedi cyn i'ch cofnod gael ei gredydu neu mae'n bosib na dderbynnir eich taliad o gwbl.

Mae hefyd yn bwysig i ddarparu'r cyfeirnod cywir gyda phob taliad, neu gallai fod yna oedi wrth ddiweddaru eich cofnod. Gallwch wirio rhai cyfeirnodau ar wefan CThEM yn www.hmrc.gov.uk/paymentreferencechecker

A allech chi wneud heb eich llyfryn taliad?

Rydym yn postio dros 1.6 miliwn o lyfrynnau taliad at gyflogwyr bob blwyddyn. Bydd torri'r ffigur hwn yn ein helpu i leihau costau ac o fudd i'r amgylchedd. A allech chi wneud heb eich un chi?

Talu ar-lein

Mae taliad electronig yn ddiogel, effeithlon ac yn sicrhau bod eich taliad yn cael ei dderbyn ar amser. Nid oes angen llyfryn taliad arnoch os ydych yn talu'n electronig drwy Ddebyd Uniongyrchol, cerdyn credyd neu ddebyd, y rhyngrwyd, bancio teleffon, Credyd Uniongyrchol Bacs neu CHAPS. Byddwch yn arbed costau postio hefyd.

Gallwch ganfod mwy o wybodaeth ynghylch ein talu drwy ddull electronig yn www.businesslink.gov.uk/payinghmrc

Dim taliad yn ddyledus am fis neu chwarter?

Nid oes angen slip talu arnoch i ddweud wrthym nad oes unrhyw beth gennych i'w dalu am fis neu chwarter. Gadewch i ni wybod drwy ddefnyddio ein ffurflen ar-lein yn www.hmrc.gov.uk/nilpayedue

Helpwch ni i ostwng ein hôl troed carbon a gwarchod yr amgylchedd

Os nad oes angen Llyfryn Taliad arnoch bellach, ac yr hoffech i ni roi'r gorau i'w anfon, rhowch wybod i ni. Gallwch wneud hyn drwy ddefnyddio ein ffurflen ar-lein yn www.businesslink.gov.uk/payingpaye

Llyfryn Taliad ar gyfer 2011-12

Os oes yn dal i fod angen llyfryn taliad arnoch, dylech dderbyn eich Llyfryn Taliad y Cyflogwr (P30BC) 2011-12 mewn pryd ar gyfer eich taliad cyntaf ar gyfer 2011-12. Os nad ydych yn derbyn eich llyfryn cyn 28 Ebrill 2011 gadewch i ni wybod drwy ffonio 0845 366 7816.

Mae'r llyfryn y byddwch yn ei dderbyn i'w ddefnyddio yn 2011-12 yn wahanol iawn i'r un a ddefnyddiwyd ar gyfer 2010-11. Mae'r clawr bellach yn wyn yn hytrach na melyn, ac wedi ei leihau i ffont a chlawr cefn sy'n rhoi llai o wybodaeth nag o'r blaen. Gellir canfod llawer o'r wybodaeth a ddarparwyd yn flaenorol ar ein tudalennau rhyngrwyd, mae wedi ei thynnu allan o'r llyfryn. Nid oes gwahaniaeth yn y nifer o slipiau talu ac amlenni ymateb a ddarperir ond nid oes rhannwr mwyach rhwng y slip talu mis/chwarter terfynol a'r slip talu sbâr.

Os ydych yn bwriadu talu gan ddefnyddio slipiau talu o'r llyfryn, dylech sicrhau eich bod yn ei gadw'n ddiogel wrth law drwy gydol y flwyddyn.

Tâl Tadolaeth Statudol Ychwanegol (ASPP)

Mae'n bosib fod gan eich cyflogai'r hawl i Dâl Tadolaeth Statudol Ychwanegol (ASPP) os yw ei bartner yn cael babi neu'n mabwysiadu plentyn ac â'r hawl i Dâl Mamolaeth Statudol, Lwfans Mamolaeth neu Dâl Mabwysiadu Statudol. Lluniwyd ASPP er mwyn caniatáu mwy o hyblygrwydd i rieni wrth drefnu seibiant er mwyn gofalu am blant. Mae cyflogeion sydd â'u partneriaid yn disgwyl babi neu wedi eu paru ar y cyd â phlentyn ar gyfer mabwysiadu ar neu ar ôl 3 Ebrill 2011 yn gymwys ar gyfer gwneud cais amdano. Am fod ASPP yn disodli enillion arferol, dylid didynnu treth a chyfraniadau Yswiriant Gwladol (CYG) yn y modd arferol.

Gellir canfod gwybodaeth bellach ynglŷn ag ASPP ynghyd â'r holl ffurflenni cymwys yn www.hmrc.gov.uk/paye/employees/statutory-pay/aspp-overview.htm

Rydym hefyd yn darparu cyfrifiannell electronig er mwyn eich helpu i gyfrifo hawl eich cyflogai i ASPP, y swm sy'n rhaid i chi ei dalu iddynt a'r swm y gallwch ei adennill. Gellir ei ganfod yn www.businesslink.gov.uk/basicpayetools

Pan gall ASPP fod yn ddyledus cyn 3 Ebrill 2011

Nid yw ASPP yn daladwy fel arfer tan fod y plentyn yn 20 wythnos oed, fodd bynnag, gellir ei dalu ar unwaith, yn dilyn marwolaeth mam. Golyga hyn y gallai fod achosion lle mae gan eich cyflogeion yr hawl i wneud cais am ASPP yn ystod y flwyddyn dreth 2010-11. Os oes babi, â dyddiad geni disgwyledig ar neu ar ôl 3 Ebrill 2011, yn cael ei eni'n gynnar a'r fam yn marw, gall cyflogai wneud cais am ASPP os oes ganddynt gyfrifoldeb am fagu'r plentyn. Mae'r rhan fwyaf o'r rheolau cymwys yn berthnasol ond fodd bynnag mae yna rhai eithriadau. Gellir canfod manylion rhain yn www.hmrc.gov.uk/paye/employees/statutory-pay/aspp-overview.htm#2

Cofnodi taliadau ASPP

Dylid cofnodi unrhyw daliadau cynnar o ASPP a wnaed yn y flwyddyn dreth 2010-11 yng ngholofn Tâl Salwch Statudol (SSP) ar y ffurflenni diwedd blwyddyn. O'r flwyddyn dreth 2011-12 ymlaen bydd colofn newydd ar gyfer ASPP.

Llyfrynnau Cymorth y Cyflogwr

Disgwyliwn y bydd y Llyfrynnau Cymorth ar Daliadau Statudol ar gael yn ystod mis Chwefror 2011. Dim ond ar-lein y bydd yr E16, *Employer Helpbook for Statutory Adoption Pay* ar gael.

Cyfraddau Taliadau Statudol newydd

Cyhoeddwyd y cyfraddau Taliadau Statudol newydd ar 8 Rhagfyr a gellir canfod y manylion yn www.hmrc.gov.uk/news/january.htm Ar adeg cyhoeddi roedd y rhain yn dal yn amodol ar Gymeradwyaeth Seneddol. Os oes yna unrhyw newid i'r cyfraddau, caiff ei gyhoeddi ar ein tudalen *What's New* yn www.hmrc.gov.uk/news

Dilead cysylltu Budd-dal Analluogrwydd (IB)

Mae'r rheolau cysylltu, a oedd yn caniatáu i gyflogeion sydd wedi derbyn Budd-dal Analluogrwydd i ddychwelyd at dderbyn y budd-dal hwnnw os ydynt yn syrthio'n sâl eto, wedi eu diddymu o 31 Ionawr 2011.

Beth fydd hyn yn ei olygu ar gyfer cyflogwyr?

Os oes gennych gyflogai sydd wedi bod yn derbyn IB yn ddiweddar (mae'n bosib fod ganddynt lythyr cysylltu gan y Ganolfan Byd Gwaith i gadarnhau hyn) a'u bod yn syrthio'n sâl ar neu ar ôl 31 Ionawr 2011, peidiwch â thalu SSP. Nid yw'r amgylchiadau cymwys ar gyfer SSP wedi newid ac nid oes gan y cyflogeion hyn yr hawl i SSP. Dylech roi ffurflen SSP1 – *Why you cannot get SSP* i'r cyflogeion hyn i helpu i gefnogi unrhyw gais a wnânt ar gyfer Lwfans Cyflogaeth a Chymorth neu Lwfans Anabledd Difrifol.

Isafswm Cyflog Cenedlaethol

Mae Adroddiad Blynyddol yr Isafswm Cyflog Cenedlaethol (NMW) nawr ar gael.

Mae'r adroddiad yn amlinellu cyflawniadau allweddol ar gyfer 2009-10 (gan gynnwys adennill dros £4.4m mewn ôl-ddyledion ar gyfer dros 19,000 o weithwyr!) ac hefyd sut mae'r Adran Busnes, Arloesedd a Sgiliau (BIS) a CThEM yn defnyddio'r Strategaeth Cydymffurfiad NMW a gyhoeddwyd ym mis Mawrth 2010 er mwyn gwneud gwahaniaeth i weithwyr a chyflogwyr fel ei gilydd. Gellir bwrw golwg ar yr adroddiad yn ogystal â'r strategaeth cydymffurfiad ar wefan yr Adran Busnes, Arloesedd a Sgiliau (BIS) yn www.bis.gov.uk/nmw

Newid i ddeddfwriaeth

Mae deddfwriaeth NMW wedi ei newid ers 1 Ionawr 2011. O'r dyddiad hwn mae taliadau i weithwyr ar gyfer treuliau teithio, a threuliau cysylltiol ar gyfer bwyd a llety, yn gostwng tâl isafswm cyflog cenedlaethol os cânt eu talu ar gyfer teithio o'r cartref i weithle dros dro ac os ydynt wedi eu caniatáu at ddibenion Yswiriant Gwladol.

Enwi cyflogwyr nad ydynt yn cydymffurfio'n fwriadol

Ar 1 Hydref 2010, cyhoeddodd BIS gynllun i enwi cyflogwyr sy'n diystyru cyfraith NMW yn fwriadol. Daeth y cynllun i rym ar 1 Ionawr 2011 a chaiff cyflogwyr sy'n bodloni meini prawf cyhoeddedig eu henwi mewn datganiad i'r wasg gan BIS. Gellir canfod mwy o wybodaeth am y cynllun enwi, gan gynnwys y meini prawf ar gyfer enwi, ar wefan NMW BIS yn www.bis.gov.uk/nmw

Cydweithio

Mae Tîm Ymateb Dynamig NMW wedi bod yn gweithio gyda Safonau Asiantaethau Cyflogaeth yng Nghaerlŷr a gyda chydweithwyr yn Nhimau Economi Cudd CThEM yn Nwyrain Llundain. Canlyniad yr ymgyrchoedd oedd canfod achosion o fethu â chydymffurfio mewn nifer o'r ymweliadau â chyflogwyr. Caiff ymgyrchoedd Cydweithio pellach yn 2011 eu targedu ar sectorau penodol ac ardaloedd daearyddol lle nodwyd bod risg o fethu â chydymffurfio.

Cynorthwywch i atal gweithio anghyfreithlon

Mae Asiantaeth Ffiniau'r DU wedi cyhoeddi arweiniad diweddaredig ar gyfer cyflogwyr ar atal gweithio anghyfreithlon.

Mae cyflogwyr yn gweithredu'n anghyfreithlon os ydynt yn cyflogi person nad sydd â'r hawl i weithio yn y DU a gellir eu dirwyo hyd at £10,000 am bob gweithiwr mudol anghyfreithlon.

Mae mynd i'r afael â gweithio anghyfreithlon yn flaenoriaeth ar gyfer y Llywodraeth a chyflogwyr. Mae'n:

- niweidio busnes cyfreithlon
- gostwng y cyfleoedd ar gyfer cyflogaeth ar gyfer rheinny sydd â'r hawl i weithio
- gost i'r trethdalwr drwy gyllid coll
- peryglu iechyd a lles rheinny sy'n gweithio'n anghyfreithlon

Mae Asiantaeth Ffiniau'r DU yn gweithio â chyflogwyr i frwydro'n erbyn gweithio anghyfreithlon. Lle canfyddir bod cyflogwyr yn torri'r gyfraith, mae Asiantaeth Ffiniau'r DU yn cymryd camau gorfodi cadarn.

Gellir canfod yr arweiniad cyfredol a diweddariadau newyddion i'ch cynorthwyo i atal gweithio anghyfreithlon ar wefan Asiantaeth Ffiniau'r DU yn www.ukba.homeoffice.gov.uk/employers/preventingillegalworking/ Mae'r ddogfen *Comprehensive Guidance for Employers on Preventing Illegal Working* yn cynnwys manylion am y gwiriadau dogfen yr awgrymir fod cyflogwyr yn eu gwneud a delweddau o'r dogfennau a bathnodau/arnodiadau y gellir eu cyflwyno gan weithwyr mudol fel tystiolaeth o'u hawl i weithio yn y DU.

Gellir cyfeirio cwestiynau cyffredinol ar weithio anghyfreithlon at **Linell Gymorth Nawdd a Chyflogwyr** Asiantaeth Ffiniau'r DU (llinell Saesneg) ar **0300 123 4699**.

Aberth cyflog

Newidiadau i eithriad incwm cyflogaeth ar gyfer prydiau cantîn o 2011-12.

Mae'r rheolau ynglŷn â'r eithriad ar gyfer rhai prydiau penodol cantîn a gweithle yn newid o 6 Ebrill 2011. Mae'r newidiadau hyn ond yn effeithio ar brydiau a ddarparwyd drwy aberth cyflog neu drefniadau buddiannau hyblyg.

Am fwy o wybodaeth ynglŷn â'r newidiadau hyn, gan gynnwys sut maent yn cydweithio â'n sialensau cydymffurfiad i drefniadau aberth cyflog cantîn cyfredol, gweler yr erthygl ar drefniadau cantîn ar ein gwefan yn www.hmrc.gov.uk/specialist/salary_sacrifice.htm

Mae'n rhaid i holl fusnesau TAW gyflwyno ar-lein yn 2012

Bydd yn rhaid i chi gyflwyno'ch ffurflenni TAW ar-lein yn 2012 os:
- gwnaethoch gofrestru eich busnes ar gyfer TAW cyn 1 Ebrill 2010, a
- mae'ch trosiant heb gynnwys TAW yn llai na £100,000.

Bydd hefyd yn rhaid i chi dalu unrhyw TAW sy'n ddyledus i CThEM yn electronig – gallwch wneud hyn mewn llawer o ffyrdd.

Nid ydym yn newid y rheolau ar gyfer sut rydych yn cyfrifo TAW, cadw eich cofnodion (ar bapur neu gyfrifiadur) neu gwblhau'r Ffurflen TAW. Yn ogystal, mae'r Ffurflen TAW ar-lein yr un fath â'r un papur – dim ond y modd yr anfonwch eich Ffurflen TAW atom sy'n newid.

Ewch ati i weithredu nawr

Beth am ymuno â dros 1.5 miliwn o fusnesau sydd wedi'u cofrestru ar gyfer TAW sydd eisoes wedi ymrestru ar gyfer Gwasanaethau TAW Ar-lein? Mae nifer sylweddol o'r rhain wedi dewis mynd ar-lein o'i gwirfodd, ac yn sylweddoli pa fanteision y mae cyflwyno ar-lein yn eu cynnig:
- Mae'r gwasanaeth ar-lein ar gael yn ystod y dydd neu'r nos, felly cyflwynwch ar-lein ar amser sy'n gyfleus i chi.
- Caiff y ffigurau ar gyfer blychau 3 a 5 eu cyfrifo a'u cofnodi'n awtomatig ar eich cyfer, er mwyn cynorthwyo i leihau gwallau rhifyddol.
- Cewch gadarnhad ar-sgrin awtomatig ein bod wedi derbyn eich Ffurflen TAW yn saff.
- Pan fyddwch yn talu'n electronig cewch fwy o amser i gyflwyno a thalu. Mae talu drwy Ddebyd Uniongyrchol ar-lein yn rhoi'r estyniad hiraf i'r dyddiad cyflwyno i chi, ac yn golygu y byddwn yn casglu'r TAW a ddangosir ar eich Ffurflen TAW yn awtomatig, ar y diwrnod cywir.
- Caiff unrhyw daliadau sy'n ddyledus i chi eu prosesu'n gyflymach ar-lein na phetaech yn anfon yr un Ffurflen TAW ar bapur.

Beth sydd angen i chi eu hystyried

Bydd angen i chi benderfynu sut rydych am gyflwyno eich Ffurflenni TAW ar-lein. Yr opsiynau yw:
- Gwasanaeth TAW Ar-lein rhad ac am ddim CThEM;
- meddalwedd masnachol (am y dymunwch, o bosib, gwblhau/gyflwyno eich Ffurflen TAW yn uniongyrchol o'ch meddalwedd cyfrifo); neu
- gwasanaethau asiant neu lyfrifwr i gyflwyno ar eich rhan.

Pa ddull bynnag a ddewiswch, mae'n rhaid i chi (neu eich asiant, os ydych yn defnyddio un) yn gyntaf gofrestru ac ymrestru eich busnes ar gyfer y gwasanaeth TAW ar-lein. Unwaith eich bod wedi gwneud hyn awgrymwn yn gryf eich bod yn ymrestru ar gyfer derbyn nodyn atgoffa drwy e-bost i'n galluogi i'ch hysbysu pan fydd eich Ffurflen TAW nesaf yn ddyledus. Gallwch wneud hyn ar y dudalen 'Ar gip'.

Bydd hefyd angen i chi ystyriaed pa ddull talu electronig sy'n gweddu orau ar eich cyfer chi a'ch busnes; ac yna sefydlu unrhyw drefniadau angenrheidiol. Gallwch dalu'n electronig drwy Ddebyd Uniongyrchol ar-lein, bancio teleffon neu rhyngrwyd, trosglwyddiad CHAPS, Credyd Uniongyrchol Bacs, Billpay gan ddefnyddio cerdyn debyd neu credyd dros y Rhyngrwyd, neu drosglwyddiad Giro Banc. Gallwch ganfod mwy ynglŷn â'r dulliau hyn a'r amser ychwanegol i gyflwyno a thalu yn www.hmrc.gov.uk/payinghmrc/vat.htm

Cymorth ag ymrestru a chyflwyno ar-lein

Disgwyliwn y bydd symud ar-lein yn syml ar gyfer y rhan fwyaf o fusnesau. Serch hynny, os oes angen unrhyw gymorth ychwanegol arnoch â dechrau, bwriwch olwg ar ein dangosydd gwasanaethau ar-lein yn www.hmrc.gov.uk/demo Neu fe allwch gyrchu ein *Canllaw Dechreuwr ar gyfer Ymrestru* yn www.hmrc.gov.uk/vat/sign-up-for-online.pdf a *Chyflwyno Ffurflen TAW Ar-lein* yn www.hmrc.gov.uk/vat/online-return.pdf

Rhyddhad treth ar bensiynau

Cynilion Pensiwn: Newidiadau i ryddhad treth.

Mae yna newidiadau i gyfanswm y rhyddhad treth ar gyfraniadau pensiwn y gall unigolyn ymelwa ohono bob blwyddyn, yn dod i rym o Ebrill 2011 ymlaen. Mae'r lwfans blynyddol, sy'n cyfyngu ar gyfanswm y cynilion pensiwn â rhyddhad treth y gall unigolion ymelwa ohono mewn blwyddyn, yn cael ei ostwng ar gyfer y flwyddyn dreth 2011-12 i £50,000. Gall y newid hwn gael effaith ar rai cyflogwyr yn ogystal â'u cyflogeion.

Os ydych yn gweithredu cynllun pensiwn Buddion Diffiniedig (DB) neu gynllun pensiwn 'cael arian yn ôl' er budd eich cyflogeion, gallai'r newidiadau hyn effeithio ar eich gweithrediadau cyflogres.

Bydd gofyniad newydd gan CThEM ar gyflogwyr sy'n noddi'r cynlluniau pensiwn hyn i ddarparu gwybodaeth i weinyddwyr y cynlluniau pensiwn ynglŷn â chyflog pensiynadwy, buddiannau a gwasanaethau cyflogeion erbyn **6 Gorffennaf** ar ôl diwedd y flwyddyn dreth. Mae hyn er mwyn caniatáu amser i weinyddwyr cynlluniau pensiwn i gyfrifo cynilion pensiwn blynyddol cyflogeion a hysbysu'r unigolyn hynny os yn briodol. Bydd angen yr wybodaeth hon ar yr unigolyn er mwyn cyfrifo unrhyw dreth sy'n ddyledus, os yw eu cynilion pensiwn wedi codi'n uwch na'r lwfans blynyddol.

Am y flwyddyn gyntaf yn unig, caiff cyflogwyr 12 mis ychwanegol i ddarparu'r wybodaeth hon, er mwyn caniatáu amser iddynt i newid eu system, os yn angenrheidiol. Golyga hyn ar gyfer y flwyddyn dreth 2011-12, yr hwyraf y gall yr wybodaeth gael ei darparu i weinyddwr y cynllun yw 6 Gorffennaf 2013.

Cyhoeddir diweddariadau pellach ynglŷn â'r rheoliadau drafft sy'n amlinellu'r gofynion hyn ar ein gwefan.

Nid oes unrhyw newidiadau i drethiant cyfraniadau pensiwn y cyflogwr at ddibenion treth gorfforaeth.

Os oes arnoch chi neu'ch cyflogeion angen unrhyw wybodaeth bellach ynglŷn â'r newidiadau hyn, gallwch ganfod mwy yn www.hmrc.gov.uk/budget-updates/

Mae oed Pensiwn y Wladwriaeth (SPa) i ferched yn newid

Mae'r oed pan fod merched yn cyrraedd SPa yn codi'n raddol i 65. Mae'r newidiadau'n cael eu cyflwyno'n raddol ar raddfa symudol rhwng 6 Ebrill 2010 a 5 Ebrill 2020 a byddant yn effeithio ar ferched a aned rhwng 6 Ebrill 1950 a 5 Ebrill 1955. Bydd merched a aned ar neu ar ôl 6 Ebrill 1955 ond cyn 6 Ebrill 1959 yn cyrraedd SPa pan yn 65 mlwydd oed.

Cofnodi cyfraniadau Yswiriant Gwladol

Nid oes yn rhaid i unrhyw gyflogeion dros oed Pensiwn y Wladwriaeth dalu cyfraniadau Yswiriant Gwladol (CYG) y cyflogai. Fodd bynnag, mae cyflogwyr yn dal i dalu CYG cyfradd Dosbarth 1 categori C.

Os ydych chi'n cyflogi unrhyw ferched dros 60 oed bydd angen i chi barhau i ddidynnu CYG Dosbarth 1 hyd at eu SPa newydd. Sicrhewch fod gennych ddyddiadau geni cymwys ar gyfer pob cyflogai er mwyn pennu pan na fydd mwyach angen iddynt dalu CYG Dosbarth 1.

Dyddiadau SPa merched 2010-11

Dyddiad geni Gwraig	Dyddiad oed pensiwn y wladwriaeth	SPa (mewn blynyddoedd a misoedd)
06/08/50 – 05/09/50	06/01/2011	60.5
06/09/50 – 05/10/50	06/03/2011	60.6
06/10/50 – 05/11/50	06/05/2011	60.7
06/11/50 – 05/12/50	06/07/2011	60.8
06/12/50 – 05/01/51	06/09/2011	60.9
06/01/51 – 05/02/51	06/11/2011	60.10
06/02/51 – 05/03/51	06/01/2012	60.11
06/03/51 – 05/04/51	06/03/2012	61

Gwybodaeth bellach

Am fwy o wybodaeth ewch i www.businesslink.gov.uk/employeepensionage

Cynlluniau Pensiwn Contractio Allan a Chyfraniad Diffiniedig

O 6 Ebrill 2012 ni fydd yn bosibl mwyach i gontractio allan Pensiwn ychwanegol y Wladwriaeth ar sail cyfraniadau diffiniedig (DC). Bydd ein cofnodion yn dangos bod aelodaeth o'r cynlluniau wedi'u contractio allan wedi cau o 5 Ebrill 2012.

Mae cynlluniau sy'n contractio allan ar sail cyfraniad diffiniedig yn cynnwys Cynlluniau Pwrcasu Arian Wedi'u Contraction Allan (COMP) galwedigaethol, Cynlluniau Pensiwn Personol Priodol (APP) a chynlluniau Rhanddeiliaid APP. Darparwyd ar gyfer diddymu contractio allan ar y sail hon yn Neddf Pensiynau 2007 a Deddf Pensiynau 2008. Gwnaed darpariaethau cyfatebol ar gyfer Gogledd Iwerddon.

Bydd yn dal i fod yn bosib contractio allan ar sail Buddion Wedi'u Diffinio (Cynlluniau sy'n Gysylltiedig â Chyflog, sydd wedi'u Contractio Allan (COSR)).

Beth mae hyn yn ei olygu ar gyfer cyflogwyr

Ar gyfer cyflogwyr sy'n gweithredu cynlluniau COMP, y flwyddyn dreth 2011-12 fydd y flwyddyn dreth olaf pan ddylid defnyddio llythrennau categori Yswiriant Gwladol (YG) F, G, H, K, V ac S. O'r flwyddyn dreth 2012-13 ni fydd y llythrennau categori hyn na'r cyfraddau YG maent yn eu cynrychioli yn cael eu prosesu mwyach ac ni ddylid eu cofnodi ar ffurflenni P11 a P14 ar gyfer blynyddoedd treth ar ôl 2011-12. Yn hytrach, dylid defnyddio'r gyfradd 'heb gontractio allan' briodol a'r llythrennau categori YG cyfatebol.

Pan fo tystysgrif contractio allan yn cwmpasu Cynllun Buddion Cymwys wedi'i Gontractio Allan (COMBS), bydd yn parhau i fod yn ddilys dim ond ar gyfer rhannau o'r cynllun a gontractiwyd allan ar sail buddion wedi'u diffinio. Lle mae cyflogeion yn ymuno â (neu'n parhau i fod yn aelodau o) Chynllun COSR, dylid defnyddio'r llythrennau categori COSR priodol. Fel rhan o'r broses diddymu byddwn hefyd yn dileu'r blwch Rhif Contractio Allan y Cynllun (SCON) sydd ar ffurflen P14.

Dylai cyflogwyr hefyd ystyried trafod gydag ymddiriedolwyr a chynghorwyr y cynllun ynglŷn â sut fydd y cynllun yn cael ei weithredu yn dilyn y newid hwn a sut y byddant yn hysbysu eu cyflogeion/aelodau'r cynllun ynglŷn â newidiadau i'w cyfraddau CYG ac unrhyw newidiadau i'r cynllun pensiwn.

Beth mae hyn yn ei olygu i unigolion

Bydd angen defnyddio'r hawliau pensiwn a gontractiwyd allan a gronnwyd gan aelodau'r cynllun i fyny hyd at y dyddiad diddymu o hyd, er mwyn darparu buddiannau ar gyfer y cyfnod pan gawsant eu contractio allan. O 6 Ebrill 2012 bydd aelodau'r cynllun yn cael eu cynnwys unwaith eto yng nghynllun Pensiwn y Wladwriaeth ac, yn ddibynnol ar lefel eu henillion, gallant gronni hawl ychwanegol i Bensiwn ychwanegol y Wladwriaeth.

Bydd contractio allan ar sail buddion wedi'u diffinio (COSR) yn parhau.

Gwybodaeth bellach

Bydd erthyglau pellach ynglŷn â diddymu contractio allan ar sail DC yn ymddangos mewn rhifynnau hwyrach o Fwletin y Cyflogwr.

Mae taflen wybodaeth ar gyfer cyflogwyr ynglŷn â'r newidiadau i gontractio allan ar gael yn www.dwp.gov.uk/docs/emp-contracting-out-factsheet.pdf

Rhifau Yswiriant Gwladol

Diddymu cerdyn plastig Rhif Yswiriant Gwladol

Beth sy'n newid?

Rydym yn diddymu'r cerdyn plastig rhif Yswiriant Gwladol ac yn ei ddisodli â llythyr. Mae hyn yn dilyn awgrymiad ar y wefan *Spending Challenge* ac anerchiad gan Ganghellor y Trysorlys ym mis Medi 2010.

Rydym eisoes wedi rhoi'r gorau i anfon cardiau arall. Pan fydd cwsmer yn gofyn i ni nawr i gadarnhau eu rhif Yswiriant Gwladol, rydym yn anfon llythyr atynt â'u rhif arno.

Disgwyliwn anfon y cardiau rhif Yswiriant Gwladol olaf yn 2011. Ar ôl hynny, ni fyddwn yn eu hanfon o gwbl.

Beth mae hyn yn ei olygu ar gyfer cyflogwr?

Bydd yn dal i fod angen i chi wybod beth yw'r rhif Yswiriant Gwladol cywir ar gyfer eich cyflogeion, a chofnodi hyn ar eich cofnodion cyflogres a'r ffurflenni rydych yn eu hanfon atom. Dylai eich cyflogeion roi eu rhif Yswiriant Gwladol i chi pan fyddant yn dechrau gweithio ar eich cyfer. Os nad yw eu rhif Yswiriant Gwladol ganddynt, gofynnwch iddynt wirio slip talu blaenorol, P60, neu lythyr gan CThEM neu'r Adran Gwaith a Phensiynau. Os yw cyflogai'n dal i fethu â chanfod ei rif/rhif:

- gall lenwi'r ffurflen *Your National Insurance number* yn www.hmrc.gov.uk/forms/ca5403.pdf neu
- gallwch chi lenwi'r ffurflen *Employees National Insurance trace* yn www.hmrc.gov.uk/forms/ca6855.pdf

Gellir llenwi'r ddwy ffurflen ar y sgrin ac yna'u hargraffu cyn eu harwyddo a'u postio atom ni.

Beth os oes angen i mi gadarnhau pwy yw fy nghyflogai neu wirio fod ganddo/ganddi'r hawl i weithio yn y DU?

Bydd yn dal yn rhaid i chi wneud hyn. Nid yw peidio â chael cerdyn plastig rhif Yswiriant Gwladol yn gwneud unrhyw wahaniaeth – nid oedd y cerdyn yn dystiolaeth o bwy yw rhywun nac o hawl i weithio yn y DU.

Os oes angen i chi gadarnhau pwy yw cyflogai gofynnwch iddynt am un neu fwy o'r dogfennau canlynol – fel arfer, cânt eu derbyn fel bod yn dystiolaeth ddibynadwy o bwy yw rhywun:

- Tystysgrif geni lawn y DU neu dystysgrif mabwysiadu.
- Pasbort dilys (DU neu dramor).
- Cerdyn adnabod gwladolyn tramor.
- Trwydded breswylio neu gerdyn preswylio, gan gynnwys dogfennau preswylio mewnfudo biometrig.
- Tystysgrif lawn priodas neu bartneriaeth sifil.
- Trwydded yrru (DU neu dramor).

Os oes angen i chi wirio os oes gan rywun yr hawl i weithio yn y DU gallwch ganfod cyngor yn www.businesslink.gov.uk Cliciwch ar *Employment & skills*, o dan *Taking on staff* dewiswch *Recruiting people* yna dewiswch *Employment checks*.

Dyddiadur y Cyflogwr

Chwefror2011

2 Dylai ffurflenni P46(Car) ar gyfer y chwarter a ddaeth i ben ar 5 Ionawr ein cyrraedd erbyn y dyddiad hwn.

15 Os nad ydych eisoes wedi cofrestru ar gyfer cyflwyno ar-lein awgrymwn eich bod yn gwneud hynny nawr fel eich bod yn barod i Gyflwyno eich Datganiad Blynyddol y Cyflogwr (ffurflenni P35 a P14).

Canol Chwefror Gellir nawr lawrlwytho Offer TWE Sylfaenol y Cyflogwr sy'n disodli CD-ROM y Cyflogwr. Er mwyn darganfod mwy ynglŷn â'r Offer TWE newydd ewch i *Employer CD-ROM 2010* www.hmrc.gov.uk/employers/cdrom/

Cofiwch y gallwch gofrestru ar gyfer derbyn rhybuddion e-bost ar unrhyw adeg ac awgrymwn eich bod yn gwneud hyn cyn gynted â phosib er mwyn derbyn diweddariadau i'r Offer TWE Sylfaenol. Am wybodaeth ac er mwyn cofrestru ewch i wasanaeth rhybuddion e-bost CThEM www.businesslink.gov.uk/hmrcemployeremailalerts

Mae'r Offer TWE Sylfaenol yn cynnwys arweiniad i'ch cynorthwyo i orffen y flwyddyn dreth hon a dechrau'r un nesaf.

Canol Chwefror i Ganol Mawrth: Dylech ddisgwyl derbyn eich hysbysiad i gyflwyno eich Datganiad Blynyddol y Cyflogwr [P35 a P14] ar gyfer 2010-11.

19 Dylai taliadau siec ar gyfer y mis a ddaeth i ben ar 5 Chwefror gyrraedd eich Swyddfa Gyfrifon erbyn y dyddiad hwn.

22 Dylai taliadau electronig ar gyfer y mis a ddaeth i ben ar 5 Chwefror fod wedi clirio yn ein cyfrif banc.

Diwedd Dylech ddisgwyl eich: Meddalwedd a chyfarwyddiadau wedi'u diweddaru gan eich darparwr os ydych yn defnyddio pecyn y gyflogres.

Mawrth2011

15 Os nad ydych eisoes wedi cofrestru ar gyfer cyflwyno ar-lein awgrymwn eich bod yn gwneud hynny nawr fel eich bod yn barod i Gyflwyno eich Datganiad Blynyddol y Cyflogwr (ffurflenni P35 a P14) a ffurflenni P45 a P46 ar gyfer cyflogeion sy'n cychwyn ac yn Gadael, ar-lein.

19 Dylai taliadau siec ar gyfer y mis a ddaeth i ben ar 5 Mawrth gyrraedd eich Swyddfa Gyfrifon erbyn y dyddiad hwn.

22 Dylai taliadau electronig ar gyfer y mis a ddaeth i ben ar 5 Mawrth fod wedi clirio yn ein cyfrif banc erbyn y dyddiad hwn.

30 Dylech ddisgwyl: Unrhyw newidiadau munud olaf i'r cod treth TWE ar ffurflenni P9. Mae'r P9X yn eich Offer TWE Sylfaenol, y gwnaethoch eu lawrlwytho, yn dweud wrthych sut i ddiweddaru codau treth eich cyflogeion ar gyfer 2011-12.

Eich llyfryn slip talu ar gyfer 2011-12, os ydych yn defnyddio un.

Fe'ch cynghorwn i:

- Ddechrau paratoi eich Datganiad Blynyddol y Cyflogwr
- Paratoi taflenni gwaith didyniadau P11 ar gyfer pob cyflogai am 2011-12. Os ydych yn defnyddio taflenni gwaith papur ceisiwch ddefnyddio'r Cyfrifiannell P11 yn eich Offer TWE Sylfaenol, mae'n haws ac yn gyflymach.
- Sicrhau eich bod wedi eich cofrestru ar gyfer cyflwyno ar-lein.

Mae'n rhaid i chi gadw cofnodion ar gyfer 2010-11.

Cadwch gopïau o gofnodion cyflog, P38[S] a Ffurflenni P11 (fersiynau â llaw, electronig neu gyfrifiannell Offer TWE Sylfaenol) tan 5 Ebrill 2014.

Dyddiadur y Cyflogwr

Ebrill2011

5 Mae'n rhaid i chi anfon eich Datganiad Blynyddol y Cyflogwr (ffurflenni P35 a P14) ar gyfer 2010-11 ar-lein. Gellir codi cosbau os fyddwch yn eu hanfon ar bapur.

6 Sicrhewch eich bod yn defnyddio'r Tablau Tâl Trethadwy B i D o heddiw ymlaen.

Gwiriwch eich bod wedi gwneud yr holl newidiadau angenrheidiol i godau treth eich cyflogeion ar gyfer 2011-12 fel yr esbonir ar P9X.

Defnyddwyr cyflogres cyfrifiadurol – sicrhewch eich bod wedi diweddaru eich paramedrau cyflogres a bod gennych y fersiwn cywir o'r feddalwedd ar gyfer 2011-12.

Canol i Ddiwedd Os wnaethoch gofrestru'n ddiweddar i ddefnyddio TWE Ar-lein ar gyfer Cyflogwyr, edrychwch allan am eich PIN Actifadu (a sicrhewch eich bod wedi gwneud nodyn o'ch ID Defnyddiwr) – mae'n rhaid i chi actifadu'r gwasanaeth o fewn 28 diwrnod.

19 Dylai taliadau siec ar gyfer y mis/chwarter a ddaeth i ben ar 5 Ebrill gyrraedd eich Swyddfa Gyfrifon erbyn y dyddiad hwn.

Dyddiad olaf ar gyfer unrhyw daliadau siec sy'n ddyledus o TWE a CYG Dosbarth 1 ar gyfer 2010-11 i gyrraedd ein Swyddfa Gyfrifon. Byddwn yn codi llog ar unrhyw daliadau a dderbynnir ar ôl y dyddiad hwn.

22 Dylai taliadau electronig ar gyfer y mis/chwarter a ddaeth i ben ar 5 Ebrill fod wedi clirio yn ein cyfrif banc.

Dyddiad olaf ar gyfer unrhyw daliadau sy'n ddyledus o TWE a CYG Dosbarth 1 ar gyfer 2010-11 i gyrraedd ein Swyddfa Gyfrifon. Byddwn yn codi llog ar unrhyw daliadau a dderbynnir ar ôl y dyddiad hwn.

Mai2011

Cynnar Dylech ddisgwyl eich rhybuddion e-bost a fydd yn eich hysbysu am unrhyw ddiweddariadau i'r Offer TWE Sylfaenol yn dilyn y Gyllideb a'ch Bwletin y Cyflogwr ar-lein.

3 Ffurflenni P46(Car) ar gyfer y chwarter a ddaeth i ben ar 5 Ebrill i'n cyrraedd erbyn y dyddiad hwn.

9 Dyddiad olaf ar gyfer cofrestru i ddefnyddio TWE ar-lein ar gyfer Cyflogwyr os yw'n ofynnol arnoch, neu os ydych yn bwriadu Anfon eich Datganiad Blynyddol y Cyflogwr 2010-11 ar-lein.

19 Dylai taliadau siec ar gyfer y mis/chwarter a ddaeth i ben ar 5 Mai gyrraedd eich Swyddfa Gyfrifon erbyn y dyddiad hwn.

Dyddiad olaf i Ddatganiadau Blynyddol y Cyflogwr (P35 a P14) i gyrraedd ein swyddfa. Byddwn yn codi llog ar unrhyw Ddatganiadau a dderbynnir yn hwyr.

20 Dylai taliadau electronig ar gyfer y mis/chwarter a ddaeth i ben ar 5 Mai fod wedi clirio yn ein cyfrif banc.

31 Dyddiad olaf ar gyfer rhoi ffurflen P60 i bob cyflogai sy'n gweithio i chi ar 5 Ebrill 2011.

Mehefin2011

Cynnar Os oes gennych Gynllun Cyfranddaliadau Cymeradwy a Gwarantau Perthynol i Gyflogaeth, yna argymhellwn eich bod yn gorffen llenwi eich datganiadau blynyddol ar gyfer 2010-11 – Ffurflen 34, Ffurflen 35, Ffurflen 39, Ffurflen 40 a Ffurflen 42 – er mwyn sicrhau ein bod yn eu derbyn cyn 6 Gorffennaf 2011.

19 Dylai taliadau siec ar gyfer y mis a ddaeth i ben ar 5 Mehefin gyrraedd ein Swyddfa Gyfrifon.

20 Dylai taliadau electronig ar gyfer y mis a ddaeth i ben ar 5 Mehefin fod wedi clirio yn ein cyfrif banc.

Rhifau ffôn a allai fod o gymorth

Llinell Gymorth – cyngor teleffon a Llinell Archebu – archebwch eich ffurflenni ac arweiniad.

Efallai y caiff galwadau eu monitro at ddibenion hyfforddi a rheoli ansawdd

I gael mynediad at ystod eang o wybodaeth cyflogwyr ar amser cyfleus ar eich cyfer chi, ewch i'r tudalennau Cyflogwyr ar ein gwefan yn www.businesslink.gov.uk/paye

Materion cyflogres cyffredinol – er enghraifft TWE, CYG a chredydau treth

Canolfan Gyswllt Gymraeg	**0845 302 1489**	Llun-Gwener 8.30am-5pm Bydd peiriant ateb ar gael y tu allan i'r oriau hyn.
Ffacs	**01766 516100**	
Ffôn Testun	**0845 6 021 380**	ar gyfer cyflogwyr sy'n fyddar neu'n drwm eu clyw (dim ond pobl gyda'r offer arbennig fel Minicom all ddefnyddio'r rhif hwn)

Canllawiau

Gwefan	www.hmrc.gov.uk/cymraeg/employers/index.htm

Gwasanaeth Saesneg yn unig a geir ar y rhifau isod

Cynllun Diwydiant Adeiladu (CIS)

Llinell Gymorth CIS	**08453 667 899**	7 diwrnod yr wythnos 8am-8pm
Minicom	**08453 667 894**	

CYG: Pynciau Arbennig

Llinell Gymorth a Llinell Archebu Pensiynau wedi'u contractio allan	**08459 150 150**	Llun-Gwener 8am-5pm
Llinell Gymorth a Llinell Archebu ar gyfer pobl dibreswyl yn y DU	**08459 154 811**	Llun-Gwener 8am-5pm

Isafswm Cyflog Cenedlaethol (NMW)

Llinell Gymorth	**08456 000 678**	Llun-Gwener 9am-5pm
Llinell Archebu	**08458 450 360**	7 diwrnod yr wythnos 24 awr

Llinellau Cymorth Eraill

Desg Gymorth Gwasanaethau Ar-lein CThEM*	*gan gynnwys cefnogaeth dechnegol ynghylch CD-ROM y Cyflogwr	
Llinell Gymorth	**08456 055 999**	7 diwrnod yr wythnos 8am-8pm
e-bost	helpdesk@ir-efile.gov.uk	
Ymholiadau ynglŷn â thaliadau TWE/HA	**08453 667 816**	Llun-Gwener 8am-8pm Sadwrn 8am-4pm